Adroddiad Blynyddol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2016-2017

www.conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

	Cynnwys	Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Datganiad o Gyfrifoldeb	6
3	Crynodeb Ariannol	7
4	Gwerthuso ein Perfformiad yn ôl Canlyniadau'r Dinesydd:	
	1) Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus	11
	2) Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel	17
	3) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas	19
	4) Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol	22
	5) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus	24
	6) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy	27
	7) Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu	30
	8) Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais	32
	9) Camau Blaenoriaeth Cyffredinol	34
5	Gweithio ar y Cyd	36
6	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o'n Perfformiad	44
7	Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus CLILC	47
8	Cymerwch ran	51
9	Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?	52

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Rydym yn fwy na pharod i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, braille neu ar fformat sain. Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.

1 Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bwriad yr adroddiad yw ystyried yn gyhoeddus sut y perfformiodd yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth). Mae'r adroddiad yn cynrychioli adolygiad a gwerthusiad yr awdurdod o'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn derfynol Cynllun Corfforaethol 2012-2017. O ystyried pa mor fanwl yw'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi llunio fersiwn gryno i roi trosolwg cyffredinol.

Yn ystod 2016/17, bu i ni weithio'n galed gyda chymunedau lleol i ddatblygu syniadau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd o 2017 tan 2022. Bu i ni wneud hyn drwy 'Sgwrs y Sir' er mwyn casglu barn ar yr hyn sy'n bwysig i bobl yn eu hardal leol. Cyhoeddwyd drafft o Gynllun Corfforaethol newydd 2017-2022 fis Mawrth 2017 a chyhoeddwyd fersiwn derfynol ym mis Hydref 2017. Er bod y cynllun yn ymestyn dros 5 mlynedd, byddwn yn gwahodd y cyhoedd i'n helpu i adolygu'r Cynllun Corfforaethol bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn fforddiadwy. Bydd fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor bob mis Mai a'i gyhoeddi ar ein gwefan[1].

Mae datblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd wedi bod yn gyfle i adlewyrchu ar y modd rydym yn ymgysylltu a gweithio gyda chymunedau. Nodwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr awdurdod a oedd yn perfformio orau o ran gwasanaethau o safon uchel yn Arolwg Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru ac roedd 62% o'r rhai a holwyd yn cytuno â hynny. Cawsom hefyd ein henwi fel yr awdurdod a oedd yn perfformio orau dan y datganiad 'mae'r Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i wella'r ardal' – roedd 54% o'r rhai a holwyd yn cytuno â'r datganiad hwn, a'r awdurdod a oedd yn perfformio orau dan y datganiad 'mae'r Cyngor yn gadael i bobl wybod sut mae'n perfformio' – roedd 48% o'r rhai a holwyd yn cytuno â hynny.

Roedd Conwy ac un awdurdod arall ar y brig fel yr awdurdod a oedd yn perfformio orau dan y datganiad bod 'pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau' – roedd 24% o'r rhai a holwyd yn cytuno, ond rydym yn ymdrechu i wella'r ganran hon. Rydym eisiau cryfhau ein cydberthnasau a chael sgyrsiau parhaus i ddatblygu syniadau a ffyrdd newydd o gydweithio. Mae hyn yn benodol allweddol gan fod mesurau caledi yn parhau o un flwyddyn i'r llall. Fel sy'n wir yn holl sefydliadau'r Sector Cyhoeddus, sicrhaodd yr Awdurdod arbedion cyllidebol sylweddol gwerth £8,873 miliwn yn ystod 2016/2017. Rhagwelir y bydd angen gwneud mwy o arbedion ariannol sylweddol am flynyddoedd lawer i ddod, felly mae'n dal yn hanfodol bwysig ein bod yn canolbwyntio ar adolygu sut rydym yn darparu gwasanaeth. Mae'r Awdurdod wrthi'n cynllunio i wneud mwy o arbedion ac mae diffyg adnoddau o £14,282 miliwn yn ei wynebu yn 2017/18 ac mae'n paratoi am ddiffyg posib' o £9,207 miliwn ar gyfer 2018/19 a £6,549 ar gyfer 2019/20. O ganlyniad, bydd yn rhaid i Aelodau Etholedig wneud penderfyniadau anodd a bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau a sefydliadau cyhoeddus eraill i ddod o hyd i ffyrdd arloesol a blaengar o gynnal cymunedau cynaliadwy, heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Fel awdurdod, rydym yn adolygu ac yn addasu'r ffordd rydym yn gweithio'n rheolaidd er mwyn rhoi ystyriaeth i ddeddfwriaeth newydd ac felly rydym wedi bod yn gweithio'n galed fel awdurdod i addasu ein ffyrdd o weithio i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cynaliadwyedd yn hanfodol i ddyfodol Cymru, ac isod rydym wedi nodi rhai o'n cyflawniadau yn ystod y flwyddyn i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Economaidd

- Rydym wedi cefnogi 144 o leoliadau gwaith a 71 o brentisiaethau ar gyfer pobl leol
- Rydym yn annog pobl ifanc i ystyried gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg i allu manteisio ar gyfleoedd am swyddi lleol
- Rydym wedi lansio ap cyrchfan iConwy sy'n rhoi gwybodaeth i dwristiaid ynglŷn â lleoedd i'w gweld, pethau i'w gwneud a chynigion arbennig
- Rydym wedi lansio Strategaeth Economi Conwy
- Rydym yn hel buddion cymunedol drwy'r ffordd rydym yn caffael
- Mae Conwy wedi cefnogi/cynnal nifer o ddigwyddiadau sy'n denu ymwelwyr ac yn cynyddu gwariant yn yr ardal fel yr ŵyl gorawl, Proms yn Parc, Rali Cymru GB a chyngherddau ac Eirias
- Rydym wedi cynnal 4edd seremoni Gwobrau Busnes Conwy i ddathlu llwyddiant busnesau lleol

[1] www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol

- Mae Llandudno, Conwy a Betws-y-coed wedi ennill Statws Hygyrch i Goetsis

Cymdeithasol

- Rydym yn parhau i foderneiddio ysgolion
- Rydym yn parhau i foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio fel ein bod yn hygyrch ac yn effeithlon
- Rydym wedi lansio gwefan newydd i'r Cyngor, sy'n haws ei defnyddio ac yn hygyrch ar lechi electronig a ffonau clyfar
- Cyrhaeddodd y Bartneriaeth Datrysiadau Tai y rhestr fer yng Ngwobrau Arloesi Cyllid Cyhoeddus eleni, sy'n cael eu cynnal gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) gan dderbyn "Cymeradwyaeth Uchel" yn y dosbarth Model Darparu Gwasanaeth Amgen
- Drwy weithio mewn partneriaeth, mae gennym brosesau ar waith i warchod pobl ddiamddiffyn
- Gweithio gyda llysgenhadon ifanc i'w hannog i ddechrau gwneud ymarfer corff
- Cafodd tîm yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a'r tîm Refeniw a Budd-daliadau Wobrau Rhagoriaeth Cwsmeriaid am y 6ed flwyddyn yn olynol
- Enillodd y Gwasanaeth Ieuenctid ddwy wobr am Ragoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid gan Lywodraeth Cymru am hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diwylliant Cymru. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd wedi cael y Marc Safon Arian
- Mae'r Cyngor yn parhau i arwain y ffordd wrth annog pobl i ddechrau defnyddio prosesau bilio electronig, a bellach, mae dros 16,000 o bobl yn talu Treth y Cyngor fel hyn
- Rydym yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu cynlluniau lleoedd

Amgylcheddol

- Cawsom y sgôr ailgylchu orau ar gyfer y sir – diolch i bawb yn y gymuned am ailgylchu mwy
- Fe enillodd y cymal cyntaf yn natblygiad glan y môr Bae Colwyn wobr gynaliadwyedd Bill Ward yng ngwobrau blynyddol Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru fel cydnabyddiaeth i'r dyluniad a'r gwaith adeiladu cynaliadwy
- Rydym yn gweithio'n galed i gadw'r amgylchedd yn lân rhag sbwriel a baw cŵn
- Rydym yn lleihau ei hôl troed carbon drwy ddefnyddio technoleg newydd i leihau faint rydym yn teithio mewn ceir a'n defnydd o drydan
- Enillodd 9 o'n mannau agored wobr y fflag werdd (marc rhyngwladol o barc neu fan gwyrdd o safon)
- Mae'r Cyngor wedi dal ei afael ar Safon Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd
- Dyfarnwyd Safon Ansawdd ISO 9001 i dîm yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, sy'n dangos darpariaeth dda o gynnyrch a gwasanaethau o safon yn gyson.
- Perfformiwr gorau APSE o ran Parciau, Mannau Agored a Gwasanaethau Garddwriaethol
- Y Cyngor oedd awdurdod cyntaf Cymru i gael statws Cyfeillgar i Wenyn, sy'n hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad yn niferoedd pryfed peillio (gwenyn, gloÿnnod byw, gwyfynod a chwilod)

Diwylliannol

- Rydym wedi diogelu cyllid i ddatblygu Canolfan Ddiwylliant Conwy
- Rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd Safonau Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru
- Rydym wedi lansio strategaeth iaith Gymraeg newydd
- Cafodd Venue Cymru lawer o ganmoliaeth yng Ngwobrau Cynnal Cymru
- Derbyniodd dau wirfoddolwr o'r Gwasanaeth Ieuenctid wobrau mawreddog – Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn BBC Sport Wales a Gwobr Diana
- Roedd y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn un o ddau gyngor yn unig a lwyddodd i gyrraedd Safon Ansawdd Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru
- Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi derbyn achrediad Siarter Digidol Cymru. Mae hwn yn cydnabod y gwaith mae llyfrgelloedd yn ei wneud i hybu sgiliau digidol sylfaenol
- Mae twristiaeth dreftadaeth yn mynd o nerth i nerth

Meysydd i'w datblygu

Rydym yn falch iawn o'r cyflawniadau hyn, ond mae hunanasesu hefyd yn golygu ystyried ble mae angen i ni wella neu ddatblygu. Oherwydd hynny, byddwn hefyd yn anelu at ddatblygu gwaith yn y meysydd canlynol:

- Gwella cyraeddiadau addysgol
- Codi ymwybyddiaeth bod diogelu'n rhywbeth i bawb ei ystyried
- Cefnogi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref
- Cynyddu faint o lety addas sydd ar gael i weddu i ffordd pobl o fyw
- Adolygu dulliau darparu'r gwasanaeth i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol
- Parhau i fonitro effaith Brexit
- Parhau i ddatblygu prosesau cydweithio a pherthnasoedd gyda chydweithwyr ym maes iechyd
- Hyrwyddo manteision ymarfer corff i rai o bob oed
- Defnyddio cymaint o dechnoleg â phosib

Gobeithio y bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn llawn gwybodaeth i chi. Nod yr adroddiad yw rhoi sicrwydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymrwymo i gefnogi cymunedau yn wyneb heriau ariannol sylweddol. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos ein bod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau heriol a osodom yng Nghynllun Corfforaethol 2012-2017 a byddwn yn parhau i osod safon uchel yn y cynllun newydd ar gyfer 2017-2022.

Y Cynghorydd Gareth Jones
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Iwan Davies
Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

2 Datganiad o Gyfrifoldeb

Mae'r Awdurdod yn adrodd ar berfformiad mewn 2 gam.

Cam 1 Amcanion y Cynllun Gwella

Yn unol â chanllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella[2] a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu ei amcanion gwella a llunio cynllun clir ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynllun gwella strategol sydd â chyfnod o bum mlynedd, a elwir yn Gynllun Corfforaethol. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn fforddiadwy. Mae Cynllun Corfforaethol 2012-2017 bellach wedi cyrraedd pen ei flwyddyn olaf. Yn ystod 2016/17, fe ymgysylltwyd â'r gymuned er mwyn datblygu Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017-2022. Mae'r cynllun newydd hwn yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

Cam 2 Asesu Perfformiad

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn hunanasesu ei berfformiad a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol yn ôl sut y mae wedi cyflawni ei flaenoriaethau dros y flwyddyn ddiwethaf:

Llywodraethu:

Mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu (y modd yr ydym yn cyfarwyddo ac yn rheoli ein busnes ac yn ymwneud â chymunedau) yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a rheoli risg yn effeithiol. Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â'r ffordd y bydd aelodau etholedig a swyddogion yn ymdrin â busnes yr awdurdod, a sut y byddwn yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid a phartneriaid.

Yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2016) a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol, caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei lunio a'i gyhoeddi ar y wefan bob blwyddyn er mwyn adrodd am ein trefniadau ac am y meysydd i'w gwella. Mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd ei lofnodi a chaiff ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r Cyngor bob mis Medi yn rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

Perfformiad:

Yn rhan o'n cyfrifoldebau o dan gyfarwyddyd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, llunnir Adroddiad Blynyddol er mwyn adrodd ar hunanwerthusiad yr Awdurdod o'i berfformiad. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yr amcanion gwella a osodwyd ar gyfer 2016/17. Fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 19 Hydref 2017 ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan y Cyngor yn syth wedi hynny.

[2] http://gov.wales/topics/localgovernment/partnership-with-local-government/progimprove/?skip=1&lang=cy

3 Crynodeb Ariannol

Fel corff sy'n atebol i'r cyhoedd, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sicrhau gwerth am arian, ac yn ystod 2016/2017 roeddem yn codi'r bumed ffi isaf ar gyfer Band D Treth y Cyngor yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi Setliad grant refeniw i Awdurdodau Lleol, sy'n ariannu cyfran fawr o'r gyllideb refeniw. Roedd setliad 2016/2017 yn un heriol iawn ac roedd yn cynnwys toriad cyllid gwirioneddol o ganlyniad uniongyrchol i'r sefyllfa economaidd, ond gyda mesurau wedi'u cynnwys i amddiffyn cyllidebau Ysgolion. Canlyniad hyn oedd bod y gwariant y bu i ni ei ragdybio'n uwch na'r gyllideb a oedd ar gael ac felly roedd angen canfod arbedion o £8.873 miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb. Gwnaed yr arbedion drwy ddefnyddio sawl menter ar draws ein holl wasanaethau, drwy gyflwyno mentrau ataliol newydd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, creu incwm ychwanegol a nifer o ymarferion yn ail-fodelu gwasanaethau lle gwnaed arbedion o ran staff.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwariwyd ein cyllideb yn 2016/2017 ac o ble ddaeth yr arian (incwm).

Sut caiff yr arian ei wario

2015/16 Cost Net Wirioneddol £'000	Gwasanaeth	2016/17 Amcangyfrif Diwygiedig £'000	2016/17 Cost Net Wirioneddol £'000
79,108	Addysg	79,674	79,553
52,686	Gwasanaethau Cymdeithasol	56,229	56,356
18,825	Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	17,848	17,847
7,732	Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	7,475	7,465
4,537	Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	4,534	4,520
9,127	Cynllun Gostwng Treth y Cyngor	9,399	9,222
11,204	Ariannu Cyfalaf	8,776	8,858
5,786	Ardollau	5,773	5,758
12,851	Gwasanaethau Eraill	13,081	13,210
201,856	CYFANSWM GWASANAETHAU	202,789	202,789



O ble ddaw'r arian

2015/16 £'000	Ffynhonnell	2016/17 £'000
117,245	Grant Cynnal Refeniw – gan Lywodraeth Cymru	113,777
34,098	Cyfraniad o'r Gronfa Trethi Annomestig – gan Lywodraeth Cymru	35,644
50,513	Talwyd gan Drethdalwyr y Cyngor	53,368
201,856	CYFANSWM CYLLID	202,789
(2,466)	BALANSAU (Dygwyd Ymlaen)	(2,466)
(2,466)	BALANSAU (Cariwyd Ymlaen)	(2,466)

Crynodeb o Wariant Cyfalaf

2015/16 Gwariant £'000	Gwasanaeth	2016/17 Gwariant £'000
4,261	Addysg	9,548
316	Gwasanaethau Cymdeithasol	781
6,012	Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	12,104
2,058	Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	1,965
4,732	Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	3,872
2,510	Gwasanaethau Eraill	3,365
19,889	CYFANSWM GWASANAETHAU	31,635

4 Trosolwg o Berfformiad Camau Gweithredu a Mesuryddion y Cynllun Corfforaethol

Mae'r wybodaeth isod yn manylu ar yr adolygiad o'r cynnydd a wnaed i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2016/2017. Mae'r allweddau canlynol yn diffinio statws coch/oren/gwyrdd (COG) pob cam a mesurydd.

Allwedd COG y Camau Gweithredu:

Cam gweithredu ddim yn symud ymlaen / meysydd pryder wedi'u codi	Coch
Cam gweithredu yn symud ymlaen a dim pryderon wedi'u codi	Oren
Cam gweithredu wedi'i gyflawni	Gwyrdd

Allwedd COG y Mesuryddion Perfformiad:

O'i gymharu â'r targed a osodwyd:

Heb gyflawni'r targed ac yn is na'r lefel sy'n cael ei goddef	Coch
Oddi mewn i'r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed	Oren
Targed wedi'i gyrraedd ar gyfer y mesur	Gwyrdd
Amherthnasol (dim targed wedi'i osod)	Amherthnasol

Sut rydym yn cymharu â gweddill Cymru: Rydym wedi cymharu ein perfformiad gyda'r 21 awdurdod arall yng Nghymru, pan fo data cenedlaethol ar gael. Rydym hefyd wedi datblygu rhai mesuryddion lleol ac wedi cymharu ein perfformiad ni gyda pherfformiad y 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru pan fo modd iddynt ddarparu data cymharol inni. Mae'r canlyniadau hyn wedi eu cynnwys yn nhabl mesuryddion pob canlyniad. Er enghraifft os oes dau awdurdod wedi darparu cymhariaeth rydym wedi nodi ein perfformiad o blith 3, os oes 5 wedi darparu cymhariaeth rydym wedi nodi ein perfformiad o blith 6, ac yn y blaen.

Canlyniad 1 - Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus			
A1.1	Gwyrdd	M1.01	Gwyrdd
A1.2	Gwyrdd	M1.02a	Gwyrdd
A1.3	Gwyrdd	M1.02b	Gwyrdd
A1.4	Gwyrdd	M1.03	Gwyrdd
A1.5	Gwyrdd	M1.04	Gwyrdd
A1.6	Oren	M1.05	Coch
A1.7	Oren	M1.07a	Gwyrdd
A1.8	Gwyrdd	M1.08a	Coch
		M1.08b	Coch
		M1.09a	Gwyrdd
		M1.09b	Gwyrdd
		M1.10a	Amherthnasol
		M1.10b	Amherthnasol
		M1.10c	Amherthnasol
		M1.10d	Amherthnasol
		M1.10e	Amherthnasol
		M1.10f	Amherthnasol
		M1.10g	Amherthnasol
		M1.10h	Amherthnasol

Canlyniad 2 - Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel			
A2.1	Gwyrdd	M2.1	Gwyrdd
A2.2	Gwyrdd	M2.2	Gwyrdd
A2.3	Gwyrdd	M2.3	Gwyrdd
A2.4	Amherthnasol	M2.4	Gwyrdd
		M2.5	Gwyrdd

Canlyniad 3 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas			
A3.1	Gwyrdd	M3.1a	Gwyrdd
A3.2	Gwyrdd	M3.2a	Amherthnasol
A3.4	Amherthnasol	M3.3	Gwyrdd
A3.5	Gwyrdd	M3.5	Gwyrdd
A3.6	Gwyrdd	M3.6a	Coch
A3.7	Amherthnasol	M3.6b	Coch
		M3.7	Gwyrdd

Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol			
A4.1	Oren	M4.1	Gwyrdd
A4.2	Gwyrdd	M4.2a	Gwyrdd
A4.3	Gwyrdd	M4.2b	Gwyrdd
A4.4	Gwyrdd	M4.3	Oren
A4.5	Gwyrdd	M4.4	Gwyrdd
		M4.5	Oren

Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus			
A5.1	Gwyrdd	M5.1a	Gwyrdd
A5.2	Gwyrdd	M5.1b	Gwyrdd
A5.3	Gwyrdd	M5.2	Gwyrdd
A5.4	Gwyrdd	M5.3	Amherthnasol
A5.5	Gwyrdd	M5.4	Amherthnasol
A5.6	Gwyrdd	M5.4a	Amherthnasol
		M5.4b	Amherthnasol
		M5.4c	Amherthnasol
		M5.5	Amherthnasol
		M5.6	Amherthnasol
		M5.7	Amherthnasol

Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy			
A6.1	Gwyrdd	M6.1	Oren
A6.2	Oren	M6.2	Gwyrdd
A6.3	Oren	M6.3	Gwyrdd
A6.5	Gwyrdd	M6.4a	Amherthnasol
A6.6	Gwyrdd	M6.4b	Amherthnasol
		M6.5	
		M6.6	Gwyrdd
		M6.7	Gwyrdd
		M6.8	Gwyrdd

Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu			
A7.1	Gwyrdd	M7.1a	Coch
A7.2	Gwyrdd	M7.1b	Coch
A7.3	Gwyrdd	M7.3	Oren
		M7.4	Gwyrdd
		M7.5	Oren

Canlyniad 8 - Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais			
A8.1	Gwyrdd	M8.2	Coch
A8.2	Gwyrdd	M8.3a	Coch
A8.3	Gwyrdd	M8.3b	Amherthnasol
A8.4	Gwyrdd	M8.3c	Amherthnasol
		M8.4	Coch
		M8.5a	Oren
		M8.5b	Amherthnasol
		M8.7	Amherthnasol

Canlyniad 9 - Mae CBSC yn effeithlon ac wedi'i reoli'n dda			
G1	Gwyrdd	GM1	Oren
G2	Gwyrdd		
G4	Gwyrdd		

Canlyniad 1 - Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

1.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A1.1	Cefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol i gefnogi cyfleoedd gwaith.	Gwyrdd

Drwy gyfuniad o gymorth busnes cymdeithasol uniongyrchol, grantiau, rhyddhad ardrethi, prydlesau a chomisiynu, rydym wedi cefnogi 224 o fentrau cymdeithasol/cymunedol o fewn y Gwasanaethau Datblygu Cymunedol a Refeniw a Budd-daliadau. Cadwyd y Cynllun Grant Datblygu Mentrau Cymunedol ar gyfer 2016/17, gan alluogi 4 menter gymdeithasol i ddiogelu 23 o swyddi. Ategwyd hyn gydag 11 o ddyraniadau grantiau bychain a oedd un ai'n cefnogi busnesau newydd yn y maes hwn neu ddatblygu busnes cymdeithasol e.e. marchnata, hyfforddiant, ac ati.
Mae'r sir yn 1 o blith 3 ardal yn unig drwy Gymru ac 1 o 16 drwy'r DU i ennill statws 'Lle Mentrau Cymdeithasol', wedi'i gydnabod gan Social Enterprise UK. Mae 'Atebion Busnes Menter Gymdeithasol' (llais menter gymdeithasol y sir ar gyfer y sector a'r 'felin drafod'), wedi adolygu drafft o Gynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol i gynnwys argymhellion ar gyfer astudiaeth fapio ac adolygiad Mentrau Cymdeithasol.

A1.2	Dod â phobl ddiamddiffyn yn nes at fod mewn gwaith drwy ddarparu sgiliau ymarferol a chyfleoedd hyfforddiant iddynt.	Gwyrdd

Rydym wedi cyrraedd ein targed o gefnogi 130 o bobl ddiamddiffyn (60 o bobl i ddechrau) yn nes at fod mewn gwaith drwy ddarparu sgiliau ymarferol a chyfleoedd hyfforddiant iddynt. Daw cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i ben fis Mawrth 2017. O 1 Ebrill, bydd yn cael ei adrodd fel prosiectau 'OPUS' ac 'ADTRAC' sy'n derbyn cyllid Ewropeaidd. Cafodd dros 84% ganlyniad cadarnhaol, a fyddai'n cynnwys cyflogaeth, cymhwyster, mwy o hyder a hunan-barch, neu waith gwirfoddol.
Dyma gip ar adborth y rhai a gymerodd ran:
''Dwi'n mynd i'r coleg yn llawn amser, mae gen i leoliad gwaith, mi ddysgais i lawer ar gwrs cymorth cyntaf ac mi oeddwn i'n hapus iawn efo fo. Mae Gwaith Amdani wedi bod yn wych wrth fy helpu i fynd ar fy nghwrs a dod yn hyderus.'
'Mi fyddwn i'n argymell yn gryf i unrhyw un fynd ar y cwrs yma. Mae'r staff yn llawn gwybodaeth, yn drylwyr, yn glên a hapus ac yn hawdd mynd atynt.'
'Gan fy mod i rŵan wedi cael fy lle ar y cwrs Gradd Sylfaen mewn Plismona, mi ydw i'n teimlo fy mod i ar y llwybr gorau tuag at fy ngyrfa yn yr Heddlu.'

A1.3	Cynyddu hyd, safon a nifer y lleoliadau profiad gwaith sydd ar gael o fewn y Cyngor i helpu pobl leol i feithrin sgiliau a phrofiadau perthnasol er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.	Gwyrdd

Mae 144 o leoliadau gwaith wedi eu cynnig ar draws yr awdurdod cyfan yn ystod y cyfnod hwn. Gofynnir i bob myfyriwr ddarparu adborth ar eu profiad er mwyn gwneud unrhyw newid angenrheidiol ar gyfer y dyfodol.
Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'n Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal i ystyried cyfleoedd yn Venue Cymru a'r Gwasanaethau Hamdden.
Rydym yn ymwybodol bod cyllid i ymgymryd â Gwiriadau Iechyd a Diogelwch wedi'i dynnu'n ôl gan Gyrfa Cymru. Felly, bydd angen i ni adlewyrchu'r effaith y gallai hyn ei gael ar y niferoedd sy'n derbyn lleoliadau profiad gwaith sydd ar gael gan y Cyngor.
Nid yw ein ffocws profiad gwaith ar bobl ifanc yn unig; rydym wedi ymgysylltu llawer â grwpiau eraill fel Crest, Cyn-filwyr a'r Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd am brofiad gwaith yng Nghonwy.
Rydym yn datblygu lleoliad gwaith hirdymor i fyfyriwr israddedig cyllid ac o fewn y gwasanaethau TG, rydym wedi cynnig 2 leoliad mwy hirdymor i ddatblygu sgiliau. Rydym hefyd wedi cynnig sesiynau ymgyfarwyddo 'Mam yn ôl i'r gwaith' i rieni sydd wedi cymryd saib o'u gyrfa.

A1.4	Cynyddu nifer y prentisiaethau modern sydd ar gael i helpu pobl leol i feithrin rhagor o sgiliau a phrofiad er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.	Gwyrdd

Mae pedwar deg naw o brentisiaethau wedi'u cynnig ar draws ystod o wasanaethau. Mae pedwar deg dau ohonynt wedi'u llenwi a byddwn yn recriwtio i saith arall. Rydym yn awr yn cynnig Prentisiaethau mewn Gweinyddu Busnes, Llyfrgellyddiaeth, TG, Marchnata Digidol Creadigol, Cynnal a Chadw Cerbydau ac mae gennym ni bellach ein Cymhorthydd Addysgu cyntaf.
Yn dilyn cefnogaeth gan y Llysgennad Sgiliau, mae dau ddeg chwech o bobl leol wedi'u recriwtio fel prentisiaid i fusnesau lleol.
Mae gan Gwmni Prentis Menai, sy'n cefnogi prentisiaethau peirianneg ac adeiladu, ddeg prentisiaeth o Gonwy.

A1.5	Datblygu isadeiledd Technoleg Gwybodaeth mewn ysgolion i roi cymorth i bobl ifanc gael mynediad di-dor at addysg dechnolegol gyfoethog er mwyn datblygu sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu pobl ifanc (addysg wedi'i alluogi'n ddigidol).	 Gwyrdd

Mae strwythur cefnogi cwricwlwm / TGCh ysgolion wedi'i reoli gan GwE, y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, yn unol â'r rhaglen o ranbartholi.
Mae sesiynau cymhwysedd digidol wedi'u trefnu e.e. arweinyddiaeth a rhaglennu TGCh ac mae'r rhwydwaith TGCh rhanbarthol wedi secondio Arweinwyr Digidol rhanbarthol gan ddefnyddio grant 2016/17 Llywodraeth Cymru i gefnogi Datblygiad Cwricwlwm y Fframwaith Digidol. Gan na fydd y fframwaith cymhwysedd digidol wedi'i gyflwyno'n llawn mewn ysgolion eto, bydd angen i ni barhau i godi ymwybyddiaeth a gwella sgiliau er mwyn i ysgolion gyflawni'r gofynion. Mae'r rhwydwaith TG rhanbarthol wedi gwerthuso cynnydd ochr yn ochr â chynllun y llynedd ac maent yn cynnig cynllun newydd ar gyfer eleni. Bydd hyn yn cynnwys parhau i secondio arweinwyr digidol i gefnogi'r fframwaith cymhwysedd digidol a bydd angen mwy o arweiniad ar gyfer y bwrdd rheoli rhanbarthol mewn perthynas â rheoli'r cynllun rhwydwaith hwn yn gyffredinol.
I gefnogi ysgolion wrth iddynt gyflwyno datblygiadau technolegol newydd, cynigiwyd cynllun prynu â chyfradd llog isel i ysgolion.
Mae TGCh sy'n ymwneud â'r prosiect moderneiddio ysgolion yn datblygu yn ôl y disgwyl ac mae unrhyw wersi sy'n cael eu dysgu'n cael eu nodi. Mae'r gwasanaethau TG corfforaethol yn gweithio gydag ysgolion a'r Adran Addysg i fireinio eu cytundeb lefel gwasanaeth TG craidd (Haen 1) yn ogystal â datblygu eu cytundeb lefel gwasanaeth uwch (Haen 2). Mae bron bob ysgol wedi dewis Haen 1 ac mae Haen 2 yn cael ei threialu gan 2 neu 3 ysgol.
Mae'r cynllun prynu â chyfradd llog isel wedi'i gwblhau. Mae sesiynau'r rhaglen arweinyddiaeth ganol a'r fframwaith cymhwysedd digidol wedi cael ac yn parhau i gael eu cynnal.
Mae LIC yn parhau i fireinio Hwb, Platfform Dysgu Cymru gyfan, ac mae pob ysgol wedi cael mynediad at ardal ddigidol a rennir i allu cael gafael ar adnoddau / gwybodaeth defnyddiol.

A1.6	Gweithio ar y cyd â'n partneriaid i gyflawni'r agenda ranbarthol o wella ysgolion er mwyn codi safonau a sicrhau cyrhaeddiad mewn sgiliau sylfaenol a Phynciau Craidd TGAU ym mhob ysgol.	Oren

Mewn partneriaeth gyda GwE, mae'r Cyngor wedi nodi ysgolion cynradd sy'n tanberfformio i'w monitro, i ddarparu cefnogaeth ar eu cyfer a darparu rhaglenni ymyrraeth, os oes angen. Mae targedau heriol wedi'u gosod er mwyn codi safonau disgyblion.

Yn unol â'r gofynion cenedlaethol, mae GwE yn targedu ac yn cefnogi'r ysgolion ar sail y system gategoreiddio genedlaethol sydd â 3 cham ac sydd wedi'i diweddaru: Cam 1, cymhariaeth o ddata cenedlaethol yn cael ei chynhyrchu gan Lywodraeth Cymru; Cam 2, capasiti'r ysgol i wella yn cael ei benderfynu gan GwE; a Cham 3, gwybodaeth yr Awdurdod Lleol.

Mae cymorth a her yn seiliedig ar yr anghenion dynodedig 'Coch, Oren, Gwyrdd' a model darparu, sy'n sicrhau capasiti ychwanegol i gefnogi'r ysgolion sydd â'r anghenion mwyaf sy'n adlewyrchu ffocws Llywodraeth Cymru ar waith o ysgol i ysgol a hyrwyddo system sy'n gwella ei hunan. Mae blaenoriaethau wedi'u pennu ar gyfer pob cam addysgol allweddol.

Mae proffil Estyn Conwy'n gadarnhaol gydag ond nifer fechan o ysgolion (dwy) angen lefel uchel o gymorth gan yr Awdurdod Lleol a GwE. Mae blaenoriaethau lleol wedi'u rhannu gyda phenaethiaid cynradd ac uwchradd, gan gynnwys:
• Gwella deilliant 5+ y cyfnod sylfaen mewn iaith a mathemateg
• Gwella deilliannau Cyfnod Allweddol 2 mewn mathemateg a gwyddoniaeth
• Gwella sgorau rhifedd gweithdrefnol a rhesymegol ym mhrofion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
• Sicrhau bod pobl ysgol sy'n cael eu nodi'n goch/oren yn gwella yn ôl yr angen o fewn yr amserlen benodol
• Gwella deilliannau Cyfnod Allweddol 3 ar lefel 6 mewn Cymraeg a lefel 7 mewn mathemateg a gwyddoniaeth
• Gwella mesuryddion L2+, Dangosyddion Pynciau Craidd a Mesuryddion L" yng Nghyfnod Allweddol 4 (O leiaf yn unol â chyfartaledd Cymru)

Mae gwaith ymgynghori ar fynd gyda phenaethiaid i sicrhau bod blaenoriaethau ysgolion unigol yn cyd-fynd â blaenoriaethau Awdurdod Lleol Conwy a rhai rhanbarthol. Mae gweithdai'n cael eu cynnal gyda'r Awdurdod Lleol / GwE / Penaethiaid i lunio cynllun busnes cadarn sy'n adlewyrchu'r meysydd i'w gwella yn y system addysg yn fanwl gywir.

A1.7	Pan fo dichon gwneud hynny'n ariannol, rhoi'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar waith fel bod adeiladau ysgolion, adnoddau athrawon a phrofiadau dysgu disgyblion yn addas at y diben.	Oren

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy nifer o brosiectau moderneiddio ysgolion yn cael eu datblygu. Mae'r cynnydd wedi'i restru isod:
Mae achos busnes Conwy ac achosion busnes Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno ar gyfer Prosiectau Band A Moderneiddio Ysgolion Cynradd. Y deilliant cychwynnol yw bod y ddau wedi bod yn llwyddiannus.
Mae cynigiwr llwyddiannus wedi'i benodi drwy dendr ar gyfer Ysgol Ardal Caerhun a Threfriw. Adroddwyd hyn wrth y Cabinet ar 14/3/2017 gan awgrymu oedi â'r cynnig statudol ar gyfer Ysgol Ardal Caerhun a Threfriw am flwyddyn tan 1/9/2018.

Mae prosiectau Awel y Mynydd a Nant y Groes yn parhau – bydd Awel y Mynydd tua 3 mis yn hwyr o ganlyniad i ofynion ychwanegol am systemau chwistrellu dŵr. Mae darn sylweddol o waith Sŵn y Don wedi'i gwblhau.

Rydym yn disgwyl i'r holl gamau gweithredu gael eu cymryd cyn y gellir llunio adroddiad terfynu ar gyfer Ysgol y Gogarth (Ysgol Arbennig) mewn perthynas â darparu llety newydd a llety wedi'i adnewyddu ar y safle presennol (Cyfran 3 o gyllid Cyfalaf LIC).

Mae prosiect Adeiladau Dros Dro Campws Abergele ar y cam cychwynnol. Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi'u cynnal gyda phenaethiaid ac mae asesiadau o anghenion wedi'u llunio. Mae asesiadau wedi nodi bod angen mwy o ofod dosbarth yng Nglan Gele a Glan Morfa. Mae angen ad-drefnu y tu mewn i Ysgol Sant Elfod a darparu storfeydd ychwanegol.

A1.8	Cefnogi datblygu cyrsiau gwyddoniaeth a thechnoleg addas yn ein hysgolion i helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau a chymwysterau er mwyn gwella eu cyfle i gael gwaith.	 Gwyrdd

Prosiect a ariannwyd gan Ewrop [Cronfa Gymdeithasol Ewrop] yw STEM Gogledd. Fe gafodd ei ddatblygu'n rhanbarthol ac mae wedi'i gyflwyno ac yn dal i ddisgwyl cymeradwyaeth. Gofynnwyd i awdurdodau yng Ngogledd-orllewin Cymru gefnogi'r prosiect gyda hyd at £150,000 o arian cyfatebol pe na bai cyllid preifat yn ddigon. Mae sefyllfa Conwy'n cael ei thrafod wrth ysgrifennu'r diweddariad hwn. Mae ysgolion yn parhau i fod â mynediad at ystod eang o weithgareddau cyfoethogi i ategu'r cwricwlwm STEM. Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol BUEGC (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) wedi'i gynnwys ym Mhrosbectws LINC Conwy ar gyfer dysgwyr ôl-16. Cynhaliwyd Skills Cymru eto fis Hydref yn Venue Cymru ac roedd yn gyfle i bobl ifanc ystyried syniadau am yrfaoedd yn y dyfodol. Daeth Horizon, Airbus a chyflogwyr eraill i ddigwyddiad gwybodaeth ar gyfer Blwyddyn 11 ym mis Chwefror 2017. Yn rhan o'r Prosiect SEREN ar gyfer ein cyflawnwyr gorau, mae ymgynghorwyr o Ysbyty Glan Clwyd wedi creu rhaglen 11 wythnos o ddarlithoedd sy'n trafod ystod eang o wyddoniaeth iechyd, yn ogystal â chymorth â phrofion derbyn i ysgolion meddygol a sgiliau mewn cyfweliad.

1.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
M1.01	Nifer y Mentrau Cymdeithasol a gefnogir gan CBSC	114.00	100.00	244.00	0.00		Gwyrdd
M1.02a	Nifer yr bobl ddiamddiffyn a difreintiedig sy'n cael eu targedu gyda chymorth i symud tuag at gyflogaeth, gan gynnwys aelwydydd â phlant		130.00	152.00	0.00		Gwyrdd
M1.02b	% o bobl ddiamddiffyn a difreintiedig, gan gynnwys aelwydydd sydd â phlant, a gafodd ganlyniad cadarnhaol		80.00	84.87	0.00		Gwyrdd
M1.03	Nifer y lleoliadau gwaith a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	244.00	120.00	144.00	0.00		Gwyrdd
Roedd y gostyngiad er ffigyrau'r llynedd yn adlewyrchu'r newid yn y cynnig am leoliadau gwaith oherwydd bod y gwiriadau roedd Gyrfa Cymru'n eu cynnal wedi dod i ben. Roedd y canlyniad yn fwy na'r targed, a osodwyd i adlewyrchu'r newidiadau o ran cyllid.							
M1.04	Nifer y prentisiaethau a ddarparwyd / gefnogwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	49.00	50.00	71.00	0.00		Gwyrdd
71 o brentisiaethau wedi'u darparu 48 gan CBSC 11 o Genhadon Sgiliau 10 Cwmni Prentis 2 yn rhan o'r Strategaeth Gofod Swyddfa							
M1.05	% disgyblion Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n derbyn graddau A* i C ym mhynciau craidd TGAU (Saesneg/Cymraeg a Mathemateg)	54.20	59.00	55.90	0.00		Coch
Mae'r canlyniadau uchod yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2015/16 (Awst 2016). Mae'r canlyniad 3.1% yn is na'r targed. Mae hyn gyfwerth â 33 o ddisgyblion yn methu â chyrraedd y targed. Roedd pedair ysgol yn uwch na'u targedau neu'n gyfartal â nhw ac roedd tair yn is na'r targed. Effeithiodd dwy ysgol yn sylweddol ar y canlyniadau hyn. Fe effeithiodd y garfan fawr o ddysgwyr nad oeddent mewn ysgolion prif ffrwd (4.8%) ar y ganran isel hefyd. Yn ystod blwyddyn academaidd Medi 2016-Awst 2017, roedd cyfres o newidiadau yn fformat arholiadau TGAU. Mae'r cymwysterau TGAU Mathemateg a Saesneg newydd yn dra gwahanol i'r hen TGAU. Mae angen i ni ystyried y gall canlyniadau TGAU mis Awst 2017 amrywio oherwydd y newidiadau mewn mesurau adrodd. Oherwydd y newid sylweddol hwn, ni ellir cymharu canlyniadau TGAU 2017 yn arwyddocaol â chanlyniadau'r llynedd ac, felly, bydd yn ffurfio llinell sylfaen newydd o berfformiad.							
M1.07a	Cyfanswm yr ymweliadau â 'Hwb' – Platfform Dysgu Cymru gyfan	12,921.00	13,050.00	17,785.00	0.00		Gwyrdd
Mae cefnogaeth barhaus wedi'i threfnu ar gyfer ysgolion drwy dîm TGCh/Technegol yr Awdurdod Lleol a'r Digwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol a oedd yn hyrwyddo llawer iawn ar Hwb. Mae cefnogaeth ychwanegol hefyd ar gael drwy GwE ar ôl penodi 3 arweinydd digidol wedi'u secondio i gefnogi a hyrwyddo defnyddio Hwb yn ogystal â chefnogi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd.							

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
M1.08a	Cynnal yr ystod o bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) sydd ar gael yn ychwanegol at y Mathemateg a'r Gwyddoniaeth statudol a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4	18.00	18.00	16.00	0.00		Coch
Blwyddyn academaidd 15/16 - Mae nifer y pynciau wedi gostwng wrth i ysgolion gyflwyno'r fframwaith cymwysterau newydd.							
M1.08b	Nifer y disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n astudio pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg	5,832.00	5,750.00	3,807.00	0.00		Coch
Blwyddyn academaidd 15/16 - Mae nifer y dysgwyr wedi gostwng gan nad yw TGCh bellach yn bwnc a astudir gan bawb, ond mae'n cael ei gynnig fel dewis. Mae cymhwysedd digidol bellach yn rhan o Fagloriaeth Cymru. Mae nifer y cymwysterau gwyddoniaeth wedi'i ostwng un ai i un TGAU Gwyddoniaeth neu'r 3 maes gwyddoniaeth gwahanol.							
M1.09a	Cynnal ystod y pynciau STEM sydd ar gael yn ychwanegol at y Mathemateg a'r Gwyddoniaeth statudol a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 5	14.00	14.00	18.00	0.00		Gwyrdd
Blwyddyn academaidd 15/16 - Mae nifer y pynciau STEM wedi cynyddu ac maent bellach yn cynnwys Cyfrifiadureg, Adeiladu: Peirianneg Sifil, Economeg y Cartref ac Archeoleg.							
M1.09b	Nifer disgyblion Cyfnod Allweddol 5 sy'n astudio pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg	1,299.00	1,310.00	1,603.00	0.00		Gwyrdd
Blwyddyn academaidd 15/16 – Mae nifer y dysgwyr sy'n astudio rhai pynciau Lefel A wedi cynyddu'n sylweddol e.e. Mathemateg o 100 i 295, Mathemateg Bellach o 7 i 40, Bioleg o 78 i 222, Cemeg o 65 i 182, Ffiseg o 47 i 136.							
M1.10a	Nifer yr ysgolion cynradd yng nghategori Grŵp 1 yn y Categori Data Cenedlaethol	4.00	0.00	11.00	0.00		Amh.
Mae nifer yr ysgolion cynradd yng nghategori Grŵp 1 wedi cynyddu i 11. Mae hyn yn gynnydd o 7 o ysgolion.							
M1.10b	Nifer yr ysgolion cynradd yng nghategori Grŵp 2 yn y Categori Data Cenedlaethol	26.00	0.00	21.00	0.00		Amh.
Wrth i nifer ysgolion Grŵp 1 gynyddu, gostyngodd nifer yr ysgolion Grŵp 2 o 5 i 21 ysgol.							
M1.10c	Nifer yr ysgolion cynradd yng nghategori Grŵp 3 yn y Categori Data Cenedlaethol	22.00	0.00	20.00	0.00		Amh.
Gostyngodd nifer yr ysgolion yng nghategori Grŵp 3 o 2 i 20 ysgol. Mae angen gwella hyn.							
M1.10d	Nifer yr ysgolion cynradd yng nghategori Grŵp 4 yn y Categori Data Cenedlaethol	5.00	0.00	3.00	0.00		Amh.
Gostyngodd nifer yr ysgolion yng nghategori Grŵp 4 i 3. Mae angen lleihau'r nifer hon eto.							
M1.10e	Nifer yr ysgolion uwchradd yng nghategori Grŵp 1 yn y Categori Data Cenedlaethol	1.00	0.00	2.00	0.00		Amh.
Un ysgol uwchradd yn unig sydd yng nghategori Grŵp 1. Mae angen gwella hyn.							
M1.10f	Nifer yr ysgolion uwchradd yng nghategori Grŵp 2 yn y Categori Data Cenedlaethol	3.00	0.00	2.00	0.00		Amh.
Gostyngodd nifer yr ysgolion yng nghategori Grŵp 2 o un. Disgynnodd yr ysgol hon i Grŵp 3.							

M1.10g	Nifer yr ysgolion uwchradd yng nghategori Grŵp 3 yn y Categori Data Cenedlaethol	3.00	0.00	4.00	0.00		Amh.
Cynyddodd nifer yr ysgolion uwchradd yng nghategori Grŵp 3 i bedwar. Mae angen gwella hyn.							
M1.10h	Nifer yr ysgolion uwchradd yng nghategori Grŵp 4 yn y Categori Data Cenedlaethol	0.00	0.00	0.00	0.00		Amh.
Nid oes unrhyw ysgolion uwchradd yng Ngrŵp Safonau 4. Dylid cynnal hyn.							

1.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Yn gyffredinol, mae cynnydd wedi'i wneud i gael y canlyniad hwn. Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu mentrau cymdeithasol ac mae canlyniadau cadarnhaol wedi bod ar gyfer pobl ddiamddiffyn. Er gwaethaf yr heriau wrth gynnig profiad gwaith, rydym wedi darparu cyfleoedd ac mae niferoedd y prentisiaethau'n cynyddu. Mae gwaith o foderneiddio ysgolion yn mynd rhagddo'n dda o fewn y gyllideb heriol a chynnydd yn y farchnad. Mae ein ffocws ar bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg wedi gwella yng Nghyfnod Allweddol 5, sy'n gam cadarnhaol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at y pynciau perthnasol y maent eu hangen i gael gwaith yn lleol.

1.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Rydym yn ymwybodol o'r angen i wella cyrhaeddiad addysgol mewn ysgolion ac mae hwn wedi bod yn faes rydym wedi canolbwyntio arno a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022.

Rhaid cydnabod ymdrechion myfyrwyr ac athrawon i godi safonau, ond mae'n amlwg bod rhai proffiliau ysgolion unigol sy'n anfoddhaol ac mae'n rhaid mynd i'r afael â'r rhain. Rydym wedi creu systemau i herio a chefnogi perfformiad yr ysgol yn effeithiol. Byddwn yn parhau i fonitro proffiliau ysgolion unigol a pherfformiad ysgolion sydd yn y categorïau coch ac oren dros y 12 mis nesaf.

Canlyniad 2 - Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

2.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A2.1	Gwella yn ein swyddogaeth o ran gorfodaeth ac addysg er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys, tipio anghyfreithlon, gollwng sbwriel, graffiti a baw cŵn.	 Gwyrdd

Mae'r maes gwaith hwn yn parhau'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer y gwasanaeth, gan ganolbwyntio ar addysg yn ogystal â gorfodi. Roedd 3,980 o rybuddion cosb benodedig wedi'u cyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn (dadansoddiad = 3,906 am daflu sbwriel, 118 am faw cŵn a 74 wedi'u diddymu). Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Kingdom i orfodi ac addysgu ac mae ein Llysgenhadon Cadw Conwy'n Lân yn monitro ac yn patrolio mannau problemus bob wythnos. Rydym yn parhau i osod arwyddion rhag baw cŵn a thaflu sbwriel ac yn defnyddio camerâu i fonitro ardaloedd sy'n benodol ddrwg. Mae prif swyddog yr ymgyrch wedi mynd at Gynghorau Tref â'r bwriad o weithio mewn partneriaeth gyda nhw i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn perthynas â baw cŵn a sbwriel ac mae rhai eisoes wedi cyfrannu tuag at gost gosod arwyddion newydd ac eitemau traul. Mae'r llysgenhadon yn parhau i ymdrin â chwynion lefel isel am faterion fel tipio anghyfreithlon, sydd wedi bod yn ffordd gost-effeithiol o ddarparu gwasanaeth. Mae'r Tîm Rheoli'n parhau i ymchwilio i ffyrdd o ddarparu cyllid i barhau â'r ymgyrch llwyddiannus hwn.

A2.2	Parhau i weithio gyda'n partneriaid trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i hybu a chynnal y ffaith bod Conwy'n sir ddiogel.	 Gwyrdd

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn mynd i nifer o ddigwyddiadau cymunedol i ddarparu cyngor ar atal troseddau a chyfeirio at sefydliadau eraill. Gyda chymorth gwirfoddolwyr Gwarchod Cymdogaeth, mae'r Bartneriaeth yn cynnal digwyddiadau atal troseddau bob mis mewn archfarchnadoedd a chanolfannau siopa. Rydym hefyd yn mynd i unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau eraill. Mae gan y stondin wybodaeth daflenni atal trosedd ac offer diogelu (e.e. cloeon i wneud tai'n ddiogel ac yn anoddach i droseddwyr eu targedu). Mae gwirfoddolwyr, staff y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Safonau Masnach, Swyddogion Diogelwch Cymunedol yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn mynd i'r digwyddiadau hyn. Rydym wedi cyhoeddi newyddlenni er mwyn i ni allu cyfathrebu'n fwy effeithiol ac rydym wedi bod mewn dros 26 o ddigwyddiadau yng Nghonwy'n hyrwyddo diogelwch y cartref a diogelwch personol.

A2.3	Parhau i atal plant ac oedolion rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, esgeuluso neu brofi mathau eraill o niwed ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, esgeuluso neu brofi mathau eraill o niwed.	 Gwyrdd

Conwy sy'n cynnal Diogelu ar gyfer Gogledd Cymru ac mae'n cael ei gynrychioli ar bob bwrdd diogelu rhanbarthol ac is-grwpiau perthnasol. Ein Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Addysg yw Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol. Mae diogelu'n parhau'n faes blaenoriaeth i Gonwy ac mae wedi'i adlewyrchu yn y Cynllun Corfforaethol sydd ar ddod ar gyfer 2017-22. Bydd yr awdurdod yn defnyddio'r dangosyddion perfformiad o fewn y Cynllun Corfforaethol i fonitro ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws Conwy.

Mae'r Panel Diogelu Corfforaethol a'r grŵp Arweinwyr Dynodedig wedi parhau i gyfarfod pob deufis. Datblygiadau allweddol o fewn y chwarter diwethaf:
- Diweddaru a gweithredu'r cynllun rhanbarthol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant
- Wedi darparu hyfforddiant i dros 140 o staff addysg mewn perthynas â thrais domestig a chamfanteisio'n rhywiol ar blant
- Hyfforddiant ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi'i ddarparu i staff Hamdden a'r Gwasanaethau Ieuenctid
- Mae hyfforddiant recriwtio diogel i reolwyr bellach yn orfodol
- Datblygu'r Polisi Gwirfoddolwyr
- Mae 100% o'r holl aelodau etholedig bellach wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu (cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi arall a drefnwyd ar gyfer aelodau newydd ym mis Mehefin 2017)

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymgysylltu'n llawn â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Is-grwpiau ar gyfer oedolion a phlant.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun cyn-achosion yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fis Tachwedd 2016. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol ac mae mwy o fanylion i'w gweld ar dudalen 45 yn yr adroddiad hwn.

A2.4	Parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella cefnogaeth i'r teulu cyfan wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig, iechyd meddwl a phroblemau â chyffuriau ac alcohol	 Amh.

Cam-drin Domestig
Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio gyda Cymorth i Ferched Colwyn, Cymorth i Ferched Cymru a Relate ar brosiectau arbenigol

ac maent wedi cefnogi dros 200 o rieni a phlant sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig.
Iechyd Meddwl
Mae ein cyrsiau hyfforddiant lleol ar gael i bartneriaid ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector ac mae ymagwedd o bartneriaeth i ymateb Conwy i strategaethau iechyd meddwl, hunan-niwed ac atal hunanladdiad.
Mae tua 40 o gleientiaid wedi derbyn ymyraethau drwy'r Cwmpawd Adfer a ddarparwyd gan Mind ac mae 27 o ofalwyr i gleientiaid iechyd meddwl wedi derbyn cefnogaeth drwy wasanaeth Hafal.
Camddefnyddio Sylweddau
Rydym yn parhau i ddefnyddio ein dyraniad cyllid i ailsefydlu cleifion mewn cyfleusterau preswyl ac mae cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol yn cyfarfod â'r asiantaethau partner perthnasol yn ôl yr angen. Mae staff yn mynd i'r grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth ar gamddefnyddio sylweddau a grŵp gweithredol a grŵp cyflawni'r Bwrdd Cynllunio Ardal, felly rydym yn dylanwadu ar y strategaeth a'r swyddogaethau gweithredol gyda phartneriaid.

2.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
M2.1	% yr achosion o dipio anghyfreithlon ar dir perthnasol wedi'u riportio sy'n cael eu clirio cyn pen 5 diwrnod gwaith	92.75	95.00	98.22	95.00		Gwyrdd
Mae'r canlyniad diwedd y flwyddyn o 98% yn welliant o 5% er y flwyddyn flaenorol a dyma'r canlyniad uchaf ers 2012/13. O'r 1,068 o adroddiadau o dipio anghyfreithlon a dderbyniwyd yn ystod 2016/17, 19 yn unig a gliriwyd ar ôl 5 diwrnod gwaith.							
M2.2	Nifer y diwrnodau glanhau a gefnogwyd ledled y fwrdeistref sirol bob blwyddyn	12.00	10.00	12.00	0.00		Gwyrdd
Yn ystod 2016/17, cynhaliwyd diwrnodau amgylcheddol cymunedol yn: Llanddulas; Dolwyddelan; Glan Conwy; Eglwysbach; Bae Colwyn; Penmaenmawr; Bae Cinmel; Llandudno; Llanrwst; Deganwy; Tywyn; Bae Penrhyn. Casglwyd cyfanswm o 47 tunnell o wastraff y cartref, ac fe ailgylchwyd 53% ohono a'i atal rhag cael ei anfon i safle tirlenwi.							
M2.3	% y graffiti y cafwyd gwared ag ef o fewn 4 diwrnod gwaith o gael gwybod amdano	15.00	90.00	100.00	0.00		Gwyrdd
M2.4	Nifer y cosbau a roddwyd am faw cŵn	128.00	100.00	118.00	0.00		Gwyrdd
M2.5	Nifer y cosbau a roddwyd am ollwng sbwriel	2,617.00	2,000.00	3,906.00	0.00		Gwyrdd

2.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Ar y cyfan, mae'r camau blaenoriaeth a'r mesuryddion yn perfformio'n dda iawn ar gyfer y canlyniad hwn. Mae pob targed wedi'i gyrraedd ac mae enghreifftiau da o gydweithio a dulliau ataliol. Mae hyrwyddo Diogelu ar draws y Cyngor yn mynd rhagddo'n dda ac mae rhwydweithiau rhanbarthol da ar waith.

2.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae'n rhaid i ni barhau i addysgu pobl ynglŷn â newid ymddygiad i atal baw cŵn, gollwng sbwriel a graffiti. Mae angen i ni barhau i hyrwyddo diogelu i sicrhau bod hyn wedi'i sefydlu ym mhob maes yn y Cyngor ac mewn cymunedau i sicrhau bod pawb yn deall bod hwn yn gyfrifoldeb ar y cyd i ofalu am bobl ddiamddiffyn.

Canlyniad 3 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas

3.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A3.1	Gweithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill i atal digartrefedd lle bo hynny'n bosibl, ac i gefnogi pobl sy'n mynd yn ddigartref.	 Gwyrdd

Dathlodd Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy ei phen-blwydd yn 2 ar 30 Mehefin 2016. Mae gan y Bartneriaeth 29 aelod o staff ar draws Cartrefi Conwy, Cyngor Conwy a'r Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth sy'n darparu ystod o wasanaethau atal digartrefedd a dewisiadau tai. Ers agor i'r cyhoedd, mae nifer ymwelwyr y gwasanaeth wedi cynyddu o 5,000 yn y flwyddyn gyntaf i 8,000 yn yr ail a llawer o'r rheini o ganlyniad i well ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth, ymyrraeth gynnar yn dod yn fwyfwy cyffredin, ynghyd ag ystod gynyddol o wasanaethau a chymorth i bobl sydd ag anghenion tai. Mae buddion sylweddol wedi bod ers mabwysiadu'r model darparu gwasanaeth ar y cyd.

Mae Conwy'n arwain y ffordd mewn sawl agwedd ar wasanaethau atal digartrefedd a dewisiadau tai ac, efallai yn fwyaf nodedig, mae ein trefniadau partneriaeth yn cael eu hystyried yn arfer cadarnhaol yn genedlaethol. Mae Adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau sylweddol ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i 'gydweithredu' i atal digartrefedd Mae Datrysiadau Tai Conwy wedi bod yn rhan weithredol o weithgor cenedlaethol rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru sy'n cynrychioli Cymdeithasau Tai ar draws Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd i helpu i ddatblygu fframwaith templed er mwyn helpu awdurdodau lleol i ffurfioli eu trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid tai ar draws Cymru.

Credwn ein bod yn darparu gwasanaethau da yng Nghonwy, ochr yn ochr â nifer o gydweithwyr ac asiantaethau mewnol ac allanol. Cafodd Swyddogion Llywodraeth Cymru, ar ymweliad diweddar i adolygu cynnydd Conwy o ran cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, bod sawl maes o arfer da; ond mae mwy i'w wneud. Dywedodd y swyddogion a oedd yn ymweld "ei bod yn amlwg bod ymrwymiad cadarn i weithio mewn partneriaeth". Roedd Swyddogion Llywodraeth Cymru'n credu y gellid gwneud mwy mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe fyddwn yn canolbwyntio ar hyn. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar gydweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddiwallu anghenion pobl ifanc ac i sicrhau bod "Llwybrau Cadarnhaol at fod yn Oedolyn". Mae ein cysylltiadau ag Iechyd wedi'u cydnabod fel rhai cadarnhaol gan Swyddogion Llywodraeth Cymru ac fe fyddwn yn adeiladu ar ein gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a bydd un o'n swyddogion yn cael eu secondio i'r Tîm Rhyddhau o'r Ysbyty er mwyn cynorthwyo i ryddhau cleifion mewn modd amserol i leihau'r pwysau sydd ar Wasanaethau Iechyd ac atal blocio gwelyau mewn ysbytai lleol.

Er mai nifer cymharol isel o dai cymdeithasol sydd yng Nghonwy o gymharu â gweddill Cymru, mae ein prosesau i ddyrannu'r adnodd cyfyngedig hwn yn gadarn ac yn effeithlon. Mae'r Gofrestr Dai Gyffredinol yn sicrhau bod yr holl gymdeithasau tai lleol yn cydweithio i ddyrannu tai cymdeithasol sydd ar gael. Mae hyn yn cynnig gwell gwasanaeth i gwsmeriaid a oedd gynt yn cwblhau sawl cais ar gyfer y cymdeithasau unigol, yn cynnig gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig ar draws pob cymdeithas ac mae'n sicrhau bod eiddo'n cael ei ddyrannu'n gyson i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Drwy Bartneriaeth Datrysiadau Tai Conwy, rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â Chartrefi Conwy fel ein darparwr tai cymdeithasol mwyaf yng Nghonwy ac fel partner yn ein gwaith ar ddewisiadau tai ac atal digartrefedd.
Uchafbwynt eleni ar gyfer y Bartneriaeth Datrysiadau Tai oedd cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau Arloesi Cyllid Cyhoeddus eleni, sy'n cael eu cynnal gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) gan dderbyn "Cymeradwyaeth Uchel" yn y dosbarth Model Darparu Gwasanaeth Amgen.

Mae gwaith gyda chymdeithasau tai eraill sy'n bartneriaid yn parhau i fod yn gadarnhaol ac rydym yn falch bod y Gofrestr Tai Gyffredin yn parhau i gael ei chroesawu gan gwsmeriaid a phartneriaid o gymdeithasau tai. Mae'r gwasanaeth hwn bellach wedi bod ar waith am bron i 2 flynedd ac mae tua 800 o ddyraniadau am dai cymdeithasol ar draws ein holl bartneriaid cymdeithasau tai wedi'u cwblhau'n llwyddiannus o fewn y cyfnod hwn. Mae llawer o alw am dai cymdeithasol o hyd ac er bod gennym ni stoc o dai cymdeithasol sydd o safon dda iawn, nifer fach o gartrefi sydd gennym o gymharu â llawer o ardaloedd awdurdodau lleol eraill.
Rydym yn parhau i ddefnyddio ein Grŵp Darparu Rheoli Tai Cymdeithasol i gydweithio ar heriau a rennir a monitro effaith diwygio'r gyfundrefn les a bygythiadau eraill sy'n codi, yn ogystal â nodi arfer orau. Rydym hefyd wedi sefydlu "grŵp tai a rennir" lle byddwn ni'n ceisio treialu dewisiadau newydd o ran tai a rennir ar gyfer y rhai na fyddant bellach yn gallu fforddio byw eu hunain ar ôl newidiadau diweddar i'r rheolau Lwfans Tai Lleol a Budd-dal Tai.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n holl bartneriaid datblygu sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynyddu faint o dai fforddiadwy sydd ar gael.

A3.2	Trwy fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, rhoi'r Polisi Tai Fforddiadwy ar waith er mwyn darparu tai fforddiadwy i bobl leol.	Gwyrdd

Mae gwaith sylweddol wedi'i ddechrau er mwyn amlygu'r angen i gynyddu faint o dai fforddiadwy sydd yn y Sir. Mae Asesiad y Farchnad Dai Leol 2016 wedi'i baratoi i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu (Hydref 2016) a'i gymeradwyo gan y Cabinet (Tachwedd 2016). Mae cynllun Darparu Tai Fforddiadwy drafft wedi'i rannu gyda'r Tîm Arwain Strategol a chyda'r Bartneriaeth Tai Strategol. Bydd grŵp gwaith o aelodau/swyddogion yn cael ei ffurfio i ystyried prosesau darparu gan ddefnyddio eiddo sy'n bod eisoes yn ogystal ag adnoddau'r Cyngor (tir a'r gallu i gael cyllid). Mae Tai Fforddiadwy'n faes blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022.

Mae'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cymeradwyo cylch gorchwyl ar gyfer Grŵp Tasg a Gorffen i ystyried defnyddio refeniw ychwanegol Treth y Cyngor i ddarparu mwy o dai fforddiadwy. Mae'r cynigion o fewn y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy'n cael eu cyflwyno drwy'r Strategaeth Tai Lleol sydd ar ddod. Mae ymgynghoriad ar ddrafft o Ddogfen Ganllawiau Ategol ar hyn o bryd.

A3.4	Adolygu a, lle bo hynny'n briodol, cyflwyno'r drefn o drwyddedu tai amlfeddiannaeth drwy'r Sir er mwyn gwella ansawdd y llety sydd ar gael.	Amh.

Roedd yr ystadegau a gynhyrchwyd yn cyfiawnhau ailddatgan Pensarn fel ardal ychwanegol ar gyfer trwyddedu amlfeddiannaeth. Nid yw data am dai amlfeddiannaeth mewn ardaloedd eraill yn y Sir yn cyfiawnhau cyflwyno cynllun trwyddedu ychwanegol mewn unrhyw ward arall. Mae contract archwilio tai amlfeddiannaeth wedi'i ddyrannu i gwmni preifat allanol. Mae archwiliadau o eiddo ym Mae Colwyn bron ar ben wrth baratoi i gael ei hailddatgan yn 2017-18.

Mae cwmni preifat wedi dechrau archwilio eiddo yn Llandudno ac mae'r hysbysiadau angenrheidiol yn cael eu hanfon ar ddeiliaid trwydded y tai amlfeddiannaeth.

A3.5	Parhau i weithredu Strategaeth Cartrefi Gweigion Conwy er mwyn gwella'r amgylchedd a gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai.	Gwyrdd

Er mwyn cyfosod amcanion cartrefi gwag gyda'r rhai sy'n ymwneud â'r cyflenwad o dai fforddiadwy, mae'r Strategaeth Cartrefi Gwag bellach yn cael ei gweithredu fel rhan o'r Strategaeth Tai Lleol sy'n datblygu. Mae perfformiad wrth achosi i dai gwag gael eu defnyddio eto wedi bod yn gadarnhaol yn ystod y cyfnod.

Hoffai'r swyddogion dargedu ein hymdrechion yn fwy. Bydd y strategaeth ddiwygiedig yn blaenoriaethu gweithredu ar gartrefi gwag y gellir eu defnyddio fel tai fforddiadwy; sy'n broblemus ac yn destun cwyn/â dyled i'w Awdurdod yn eu herbyn.

A3.6	Parhau i weithio gyda phartneriaethau llifogydd i wella diogelwch a gwydnwch cymunedau a'u gallu i yswirio, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â materion llifogydd fel eu bod yn barod i ddiogelu eu heiddo.	Gwyrdd

Cynhaliwyd 13 o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth o lifogydd yn ystod 2016/17 mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ar draws Conwy, gan gynnwys; Kennedy Court, Hen Golwyn; Parc Clwyd, Bae Cinmel; Penmaenmawr; Dwygyfylchi; Ffordd Las, Llandudno; Llanrwst; Deganwy; Dolwyddelan; Tywyn a Betws y Coed.
Roedd y digwyddiadau'n gymysgedd o sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd a sioeau ffordd mewn Diwrnodau Amgylcheddol Cymunedol.

A3.7	Datblygu cynigion er mwyn cefnogi pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.	Amh.

Cymeradwywyd achos busnes cyfalaf, a ddefnyddiwyd ynghyd â'r balans grantiau, i gefnogi'r cam nesaf yn nghynllun ynni Bae Colwyn. Ar ben hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r Cyngor gyda £680,000 ar gyfer y cynnig Adnewyddu Tai Lawson Road sydd yn yr arfaeth.
Mae cynnig wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i dargedu eiddo ym Mae Colwyn ar Ffordd Abergele (rhwng pen uchaf Greenfield Road a phen uchaf Sea View Road) a chynnwys rhai o'r wynebau blaen siopau. Gyda'r cyllid, byddai modd gwella ochrau allan yr adeiladau a gosod ynysydd ar y waliau allanol, ffenestri newydd, ac ati.
Arolygon Gwledig: Y pentrefi nesaf i gael eu targedu ar gyfer arolygon ynni gwledig fydd Llanfair Talhaearn, Cerrigydrudion a Dolwyddelan. Rydym yn edrych ar ffynonellau cyllid i gynnal yr arolygon.
Cyflwynwyd cynnig nwy i Lywodraeth Cymru fis Hydref 2016 i osod prif gyflenwad nwy i bentref Llysfaen. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru'r cais heb fawr o rybudd o ganlyniad i lithriant cyllid cyfalaf. Rydym yn disgwyl canlyniad y cynnig.
Mae EON wrthi'n paratoi cynnig i gefnogi gwaith arbed ynni ar gyfer pentref Llysfaen. Pan fydd yr arolygon wedi'u cwblhau, gellir penderfynu a ddylid bwrw ymlaen a cheisio caniatâd i gefnogi unrhyw gynnig a wneir.

3.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
M3.1a	Nifer y cleientiaid mewn llety argyfwng a llety dros dro sy'n symud ymlaen i lety cynaliadwy	Dim data – mesurydd newydd	80.00	120.00	0.00		Gwyrdd
M3.2a	Nifer y cwsmeriaid a gynorthwywyd gan atal digartrefedd o dan Rhan 2 Deddf Tai Cymru 2014 gan arwain at ganlyniad cadarnhaol heb yr angen am lety dros dro.	Dim data – mesurydd newydd	0.00	211.00	0.00		Amh.
Ein canlyniad blynyddol yw 57.97% ar sail cyfanswm o 364 o achosion ar gyfer y flwyddyn ac fe lwyddwyd i atal 211 ohonynt. Wrth ystyried y canlyniadau negyddol ar draws y flwyddyn, dyma'r dadansoddiad: Aflwyddiannus wrth atal - 72; gwrthod cydweithredu - 25; cais wedi'i dynnu yn ei ôl - 6; colli cysylltiad - 49; rheswm arall - 1 CYFANSWM 153 Wrth dynnu'r rhai sydd wedi methu ag ymgysylltu â'r gwasanaethau am resymau fel 1) gwrthod cydweithredu 2) tynnu'r cais yn ei ôl 3) colli cysylltiad neu 4) am resymau eraill, roedd cyfradd atal y rhai a ymgysylltodd yn llawn â'r gefnogaeth a'r cymorth a gynigir gan Ddatrysiadau Tai Conwy yn cynyddu i 80.22% ar gyfer y flwyddyn.							
M3.3	Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd yn ystod y flwyddyn	12.57	25.00	32.62	0.00		Gwyrdd
M3.5	% y tai amlfeddiannaeth sydd â thrwydded – yn gyffredinol	87.21	75.00	86.70	0.00		Gwyrdd
M3.6a	Nifer y cartrefi newydd a alluogwyd drwy'r Swyddogaeth Tai Strategol sy'n Dai Fforddiadwy	51.00	123.00	81.00	0.00		Coch
Bydd cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer 2017/18 yn golygu y bydd perfformiad yn gwella yn y maes hwn.							
M3.6b	Nifer y cartrefi newydd a alluogwyd drwy Swyddogaeth Tai Strategol sy'n Dai Cyffredin	217.00	200.00	71.00	0.00		Coch
Y cyfanswm ar gyfer 2016/17 yw 71. Cartrefi gwag yw'r rhain sydd bellach yn cael eu defnyddio eto yn y farchnad gyffredin yn hytrach nag fel tai fforddiadwy							
M3.7	Nifer y digwyddiadau ymwybyddiaeth llifogydd a gynhaliwyd	28.00	8.00	13.00	0.00		Gwyrdd
Cynhaliwyd 13 o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth o lifogydd yn ystod 2016/17 mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ar draws Conwy, gan gynnwys; Kennedy Court, Hen Golwyn; Parc Clwyd, Bae Cinmel; Penmaenmawr; Dwygyfylchi; Ffordd Las, Llandudno; Llanrwst; Deganwy; Dolwyddelan; Tywyn a Betws y Coed. Roedd y digwyddiadau'n gymysgedd o sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd a sioeau ffordd mewn Diwrnodau Amgylcheddol Cymunedol.							

3.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy wedi'i chydnabod fel arfer dda ac mae'r gwaith ar y cyd yn mynd rhagddo'n dda. Mae atal digartrefedd yn arwain y ffordd o ran dull ond gan ei fod yn faes lle mae galw cynyddol ynddo, bydd angen monitro hyn yn ofalus wrth i newidiadau deddfwriaethol ddod i rym. Mae'r adolygiad o drwyddedau tai amlfeddiannaeth ar amser ac mae datblygiadau cadarnhaol wedi bod i geisio cyfleoedd cyllid pellach ar gyfer effeithlonrwydd ynni ac ymgysylltu'n dda gyda phreswylwyr sydd mewn perygl o lifogydd.

3.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Er na chyrhaeddwyd y targed, mae cynnydd da wedi'i wneud i ddarparu cartrefi newydd, a chartrefi fforddiadwy yn enwedig, a bydd hyn yn parhau i fod yn ffocws yn y Cynllun Corfforaethol newydd. Bydd llawer o waith yn ystod y flwyddyn nesaf gyda chymunedau sy'n dymuno datblygu Cynlluniau Lle ar draws y wlad, yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol.

Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol

4.1. Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A4.1	Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i adolygu ffyrdd o ddarparu Gofal Cymdeithasol a datblygu ystod o ddewisiadau cefnogi ar gyfer y rhai sydd angen cymorth i'w cadw'n annibynnol am gyhyd â phosibl.	Oren
Mae £1.4 miliwn o gyllid wedi'i ddiogelu drwy'r Gronfa Gofal Canolradd. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i barhau â rhai prosiectau llwyddiannus, datblygu model Pwynt Mynediad Sengl, datblygu llwybr codymau a pharhau i gefnogi gwytnwch cartrefi gofal. Mae Fforwm Gofal Integredig Conwy wedi'i ffurfio fel grŵp amlasiantaethol gweithredol. Nod y grŵp yw cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol, integredig yng Nghyngor Sir Conwy wrth eu datblygu a'u gweithredu gyda'r Bwrdd Iechyd ac asiantaethau partner, gan gynnwys y Sector Gwirfoddol. Mae'n ceisio hwyluso cydbenderfynu, gan arwain at well canlyniadau i bobl; eu helpu nhw i osgoi gorfod mynd i'r ysbyty, gostwng nifer yr ymyraethau diangen a gwella'r modd y cynllunnir y gwasanaeth. Bydd y Fforwm yn gweithredu fel y grŵp o uwch-swyddogion i gefnogi a chymell gwaith a gwasanaethau integredig, penderfynu a gwneud newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn gallu integreiddio'n dda. Er ein bod wedi parhau i ymgysylltu â phartneriaid yn rheolaidd, ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud. Bydd yr angen am ddatblygu a chydweithio mwy, yn enwedig gyda'r GIG mewn perthynas â datblygu gwasanaethau yn y gymuned, yn flaenoriaeth ar gyfer gofal cymdeithasol.		
A4.2	Cydnabod pwysigrwydd gofal anffurfiol, a dod yn well am ganfod pwy sy'n darparu gofal o'r fath a pha gymorth y mae arnynt ei angen i gyflawni'r swyddogaeth hollbwysig hon.	Gwyrdd
Mae'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yng Nghonwy'n parhau i gael eu hyrwyddo a gall y cyhoedd geisio cyngor a gwybodaeth yn y sesiynau galw heibio rheolaidd a gynhelir mewn amryw leoliadau ar draws y Sir. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod anghenion cefnogaeth nifer o ofalwyr yng Nghonwy'n cael eu trin yn bennaf drwy ddarparu cynllun gofal a chefnogaeth i'r unigolyn y maent yn gofalu amdanynt yn hytrach na thrwy unrhyw ofal a chefnogaeth ffurfiol ar gyfer y gofalwyr eu hunain. Er bod hyn yn diwallu anghenion y gofalwr nid yw'n cael ei gydnabod na'i gofnodi felly o reidrwydd. O ganlyniad i newidiadau a wnaed i'r system gofnodi a'r broses Asesu Integredig, mae data diweddar yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed i ddod o hyd i ofalwyr yng Nghonwy a'u cefnogi yn fwy manwl. Rydym wedi ailstrwythuro'r Tîm Gofalwyr ac mae gennym bellach 3 Swyddog Gofalwyr llawn amser wedi'u neilltuo i weithio gyda gofalwyr anffurfiol yng Nghonwy a'u cefnogi. Mae gwaith o ymgynghori â gofalwyr yn parhau a bydd hyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer cynlluniau comisiynu yn y dyfodol mewn perthynas â gofalwyr.		
A4.3	Rhoi cynllun gweithredu 'Conwy Egnïol am Oes' ar waith i annog cyfleoedd i fyw bywydau iach.	Gwyrdd
Mae cynllun gweithredu Conwy Egnïol am Oes yn datblygu'n dda, wrth i Gonwy dderbyn dyraniad llawn o gyllid gan Chwaraeon Cymru i ddarparu prosiectau sy'n unol â'r cynllun. Mae Tîm Chwaraeon Ysgolion Conwy ar hyn o bryd yn ailwerthuso eu strategaeth a'u strwythur cyfredol, gyda golwg ar ddatblygu i fod yn fwy parod i fodloni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a bod yn fwy parod i gyflawni deilliannau'r cynllun corfforaethol newydd. Mae'r rhaglenni allgyrsiol mewn ysgolion uwchradd yn parhau i gael eu darparu gyda mwy a mwy o ddylanwad gan Lysgenhadon Ifanc pob ysgol. Mae gan nifer o ysgolion o fewn yr Awdurdod Lleol Lysgenhadon Ifanc sy'n cynllunio ac yn cynorthwyo i weithredu rhaglen chwaraeon allgyrsiol yr ysgol. Mae Ysgol Bryn Elian ac Ysgol Dyffryn Conwy'n cael eu hystyried yn 'Ysgolion Disglair' mewn perthynas â'r rhaglenni newydd, modern hyn sy'n cael eu gyrru gan bobl ifanc. Rydym wedi cyrraedd y targed o 50% o rai 11-16 oed yn gwneud ymarfer corff rheolaidd yn wythnosol drwy gymryd rhan yn y cynllun 'canolfannau chwaraeon 5x60', yn rhannol o ganlyniad i waith caled Llysgenhadon Ifanc mewn ysgolion uwchradd. Drwy'r Llysgenhadon Ifanc, mae ysgolion yn gallu darparu gweithgareddau y mae disgyblion eu hunain wedi'u henwi ac mae'r rhaglen hon sy'n cael ei chymell gan farn plant wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y canran o blant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau'n amlach.		
A4.4	Datblygu cynllun cludiant cymunedol lleol i helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau hanfodol.	Gwyrdd
Cynhaliwyd asesiad o anghenion cludiant gwledig gan STC Ltd sydd wedi arwain at wneud argymhellion ynghylch fforddiadwyedd, hygyrchedd, derbynioldeb ac ymwybyddiaeth. Mae Strategaeth Cludiant Cymunedol ar gyfer Conwy wedi'i llunio gan ymgynghorydd allanol ac fe ddechreuodd gwaith i gyflwyno'r strategaeth ddechrau Mehefin. Mae hyn yn cynnwys edrych ar yr angen am gludiant cymunedol a sut i ddwyn grŵp datblygu ynghyd ac opsiynau cyflawni yn y dyfodol.		

A4.5	Byddwn yn diweddaru a gweithredu cynllun gweithredu Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog.	Gwyrdd

Llofnodwyd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2012 ac fe ddatblygwyd Cynllun Gweithredu. Ar hyn o bryd, mae Conwy'n bodloni 66.7% o isadeiledd cyfamod craidd y lluoedd arfog ac mae gan y Cyngor wobr arian i gydnabod ei fod yn gyflogwr sy'n ymgysylltu. Ar ben hynny, yn 2016, dyrannwyd Gwobr y Lluoedd Arfog i Liz Roberts, Aelod Cabinet a Chefnogwr y Lluoedd Arfog dros y Cyngor, fel yr unigolyn sydd wedi cyfrannu fwyaf at y Lluoedd Arfog (parhaol ac wrth gefn) yng Nghymru.
Mae Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru wedi'i sefydlu (y Dirprwy Gadeirydd yw'r Cyng. Liz Roberts), ynghyd â Phwyllgor Cyfamod Cymunedol Lluoedd Arfog Conwy sy'n monitro'r cynllun gweithredu wrth iddo gael ei roi ar waith. Mae cylch gorchwyl wedi'i sefydlu ac mae'r pwyllgor yn cael ei gefnogi gan Gyn-filwyr Conwy.
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn falch o fod yn cynnal 10fed Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog 2018. Bydd y digwyddiad yn cael ei gefnogi gan y 6 awdurdod lleol a phartneriaid allweddol ar draws Gogledd Cymru.

4.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
M4.1	% y bobl hŷn sy'n ddigon iach ar ôl 6 wythnos o ofal galluogi fel nad oes angen gofal arnynt bellach neu y gellir eu symud at gynllun gofal llai dwys	83.15	80.00	80.28	0.00		Gwyrdd
M4.2a	Nifer y gofalwyr a nodwyd	1,118.00	1,036.00	1,215.00	0.00		Gwyrdd
M4.2b	Nifer y canlyniadau i ofalwyr sydd wedi cael eu cyflawni'n llwyr neu bron yn llwyr	429.00	0.00	59.00	0.00		Gwyrdd
Mae hwn yn ostyngiad sylweddol er y flwyddyn flaenorol a oedd yn 429. Y prif reswm am hyn yw y gall gofalwyr gael cynnig cynllun sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, neu asesiad gofalwr gan ddibynnu ar eu hangen, a'r tîm sy'n eu hasesu. Ar gyfer 2016/17, yn ychwanegol at y cynllun sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, fe gwblhaodd y tîm 466 o asesiadau o ofalwyr.							
M4.3	% yr ysgolion cynradd sy'n cyrraedd y safon genedlaethol ar gyfer ysgolion iach	14.00	17.00	16.00	0.00		Oren
Methwyd y targed o drwch blewyn gan fod Ysgol Maes Owen wedi gohirio. Maent wedi ailgyflwyno cais am eu hasesiad.							
M4.4	% y rhai 11-16 oed sy'n gwneud ymarfer corff rheolaidd yn wythnosol drwy gymryd rhan yn y 'cynllun canolfannau chwaraeon 5x60'	51.00	50.00	50.00	0.00		Gwyrdd
M4.5	% y disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd yn medru nofio i safon ddigonol sy'n cwrdd â meini prawf 'dysgu nofio'	71.00	40.00	39.00	0.00		Oren
Mae Nofio Cymru, ar y cyd â Chwaraeon Cymru, wedi newid y meini prawf ar gyfer llwyddo yn yr asesiad ar gyfer nofio. O'r Flwyddyn Academaidd hon mae'n rhaid i ddisgyblion nofio heb gymorth mewn dillad am 25 metr er mwyn pasio'r asesiad. Mae hyn dipyn yn anoddach na'r asesiad blaenorol, felly fe addaswyd y targed yn unol â hynny. Methwyd â chyrraedd y targed o drwch blewyn.							

4.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae cynnydd da wedi'i wneud mewn perthynas â chymorth i ofalwyr ac rydym yn falch bod y cynllun llysgenhadon ifanc wedi cael effaith mor gadarnhaol ar y niferoedd sy'n dechrau gwneud ymarfer corff. Mae cynnal Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog 2018 yn gyffrous ac yn gyfle i godi ymwybyddiaeth.

4.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Byddwn yn parhau i ddatblygu perthnasoedd a chyfathrebu gyda chydweithwyr ym maes iechyd i adolygu systemau a chyflymu'r camau gweithredu er mwyn i ni allu defnyddio dull ataliol a sicrhau bod pobl mor annibynnol â phosib'. Mae

cefnogi iechyd mewn ysgolion yn hanfodol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ymarfer corff a lleihau gordewdra yn y Cynllun Corfforaethol newydd.

Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus

5.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

A5.1	Datblygu ein Strategaeth Ddigwyddiadau gyda budd-ddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hasedau allweddol e.e. chwaraeon dŵr, gweithgareddau awyr agored, digwyddiadau diwylliannol, Theatr Colwyn, Venue Cymru a Pharc Eirias.	Gwyrdd

Mae 2016/17 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall o weithredu Strategaeth Ddigwyddiadau CBSC. Ers mis Ebrill 2016, rydym wedi cefnogi nifer o ddigwyddiadau allweddol. Mae'r rhain wedi cynnwys Prom a Mwy, Lionel Richie, Gŵyl Griced Morgannwg, BBC Proms yn y Parc a Rali Cymru GB. Rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda nifer o fudd-ddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cynghorau Tref, Ystadau Mostyn ac adrannau mewnol i hyrwyddo ein hasedau allweddol fel Eirias, Venue Cymru a Phorth Eirias.

Rydym hefyd wedi cefnogi taith UK Pro Surf ac wedi cynnal digwyddiad Nadolig ym Mae Colwyn mewn partneriaeth â Chyngor Tref Bae Colwyn a'r Ardal Gwella Busnes. Rydym wedi cwrdd â nifer o drefnwyr digwyddiadau newydd i gefnogi digwyddiadau newydd sy'n cael eu denu i'n hardal. Rydym hefyd yn trafod gydag Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwesteio sawl digwyddiad Ewropeaidd a byd-eang posib' a fydd yn cael eu cynnal yng Nghymru yn y blynyddoedd nesaf.
Rydym hefyd yn gweithio tuag at ddau ddigwyddiad byd-eang yn 2018 i ategu Blwyddyn y Môr Croeso Cymru.

A5.2	Adolygu ein dull o gaffael er mwyn cefnogi'r economi leol.	Gwyrdd

Rydym yn chwilio am ffyrdd o gynnwys buddion cymunedol yn ein dogfennau tendr i gaffael. Mae pob prosiect yn unigryw ac nid ydynt o reidrwydd angen yr un buddion. Drwy ein prosesau tendro rydym yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r gadwyn gyflenwi leol ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau.
Rydym yn gweithio gyda darparwyr i gyflawni'r nodau lles yn rhan o'r broses gaffael. Rydym yn adolygu rôl caffael mewn perthynas â chyfleoedd am fentrau cymdeithasol.

A5.3	Bod yn fwy rhagweithiol wrth gefnogi ac ymgysylltu â busnesau newydd (gan gynnwys busnesau gwledig) yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn deall anghenion busnes, a gweithredu yn eu cylch pan fo hynny'n ddichonadwy, a chefnogi'r busnesau hynny i ymgeisio am gontractau busnes.	Gwyrdd

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n frwd â busnesau ar draws y sir. Mae ein hymgynghorwyr yn ymgysylltu â thros 600 o fusnesau ac yn eu cefnogi gyda chymorth unigol. Fel canolfan, rydym yn trefnu sawl digwyddiad fel gweithdai rhwydweithio, gwobrau busnes, grwpiau sector fel TGCh, gweithwyr proffesiynol a chyllid, gofal, ac ati, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddod â'u digwyddiadau nhw i Gonwy. Rydym hefyd wedi gallu cyrraedd mwy o bobl drwy'r gronfa ddata fusnesau. Rydym bellach yn cysylltu â 4,800 yn wythnosol, sy'n gynnydd o dros 500 mewn blwyddyn.
Ym mis Tachwedd 2016, fe gynhaliom Wythnos fusnes Conwy. Roedd hwn yn gyfle gwych i ni ddangos Conwy a'n busnesau, i rwydweithio gyda busnesau ac asiantaethau yn lleol ac yn rhanbarthol. Roedd yr wythnos wedi'i chynnal mewn ardaloedd gwledig (Glasdir) ac arfordirol.

A5.4	Uchafu'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael i drigolion Conwy mewn datblygiadau allweddol ar draws y rhanbarth.	Gwyrdd

Mae Conwy'n arwain Ffrwd Gwaith Ewropeaidd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r tîm wedi dechrau mapio gweithgarwch prosiectau rhanbarthol a chyfleoedd a fydd ar gael yn y dyfodol ac maent yn cysylltu'n agos gyda Thîm UE y Cyngor i ddosbarthu gwybodaeth ar gyfleoedd rhanbarthol.

Mae'r Tîm Ewrop wedi sefydlu Grŵp Cyflogadwyedd Conwy i sicrhau bod yr holl sgiliau a phrosiectau cyflogadwyedd sy'n cael eu cyflawni yng Nghonwy (gan CBSC ac asiantaethau eraill) yn gweithio mewn modd cydlynol a chyd-drefnus, gan sicrhau bod cyn lleied â phosib' o ailadrodd. Bydd y grŵp hwn hefyd yn sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yn cael eu cyfeirio at yr ymyrraeth bwrpasol gorau posib'.

A5.5	Hyrwyddo rhagor o fewnfuddsoddi.	Gwyrdd

Rydym wedi bod yng nghynhadledd adfywio Lerpwl i hyrwyddo Conwy i gynulleidfa'r DU.
Mae mewnfuddsoddi'n uchelgais allweddol yn strategaeth Twf Economaidd Conwy.
Rydym yn gweithio'n agosach gydag Ystadau Mostyn i geisio cydlynu a chefnogi ein huchelgeisiau ein gilydd i fewnfuddsoddi.
Mae'r Ganolfan Fusnes a'r wefan gorfforaethol yn hyrwyddo Conwy fel lleoliad i ehangu busnes.
Rydym wedi datblygu llawlyfr TG i hyrwyddo Conwy fel canolbwynt ar gyfer TGCh a bydd hwn fel adnodd i hyrwyddo mwy o fewnfuddsoddi. Mae gennym adran ar wefan ein Canolfan Fusnes yn hyrwyddo tir ac eiddo ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i hyrwyddo'r ardal ehangach.

A5.6	Gweithredu a chydlynu mentrau i helpu teuluoedd i symud allan o dlodi megis Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.	Gwyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymrwymiadau cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf ond mae'r meini prawf er mwyn defnyddio'r grant wedi newid. Maent bellach yn fwy hyblyg i ganiatáu cyswllt rhwng cynlluniau. Y ffocws ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf fydd trosglwyddo'r rhaglen gyflogadwyedd o fis Ebrill 2018. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio i ddod i ddeall beth fyddai'n gwneud model darparu cadarn mewn perthynas â phlant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi sy'n effeithio arnynt ac i sicrhau ein bod yn cael canlyniadau cadarnhaol a chadarn sy'n helpu i ddatblygu oedolion iach a chyflawn.
Mae gwaith wedi bod i ddeall y cysylltiad rhwng y gwahanol ffrydiau o waith tlodi. Rydym yn datblygu bwrdd prosiect amlasiantaethol a nod y prosiect yw datblygu canolbwyntiau cymunedol o amgylch y 5 clwstwr o ysgolion a hyrwyddo a datblygu'r rhaglen ymyrraeth gynnar ac atal. Drwy wneud hynny, byddwn yn ceisio datblygu gwytnwch plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd y prosiect hwn yn gweithio gyda'r cymunedau i ddeall yr angen a datblygu rhaglen gymorth wedi'i theilwra i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol a nodir.
Mae gwaith ymchwil wedi'i wneud i werthuso'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a bydd cynnig craidd/cyffredinol ar gael ar draws y 5 canolbwynt i lenwi'r bylchau a nodir yn ogystal â darparu'r gwasanaethau craidd y mae Dechrau'n Deg yn eu cynnig.
Yn ychwanegol at hyn, mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal ynghylch sefydlu 5 canolbwynt cymunedol i gefnogi proses sydd wedi'i harwain gan y gymuned yn fwy a chanfod anghenion y cymunedau.

5.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
M5.1a	Nifer y digwyddiadau mawr a gefnogwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	11.00	5.00	11.00	0.00		Gwyrdd
M5.1b	Nifer y digwyddiadau cymunedol a gefnogwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	46.00	25.00	27.00	0.00		Gwyrdd
M5.2	Nifer yr ymwelwyr sy'n ymweld â Chonwy bob blwyddyn gan aros dros nos	2,578,000	2,500,000	2,600,000	0.00		Gwyrdd
M5.3	Nifer yr ymwelwyr sy'n ymweld â Chonwy bob blwyddyn ar dripiau undydd	6,710,000	6,200,000	6,750,000	0.00		Gwyrdd
M5.4	% y contractau a dendrwyd gan CBSC a aeth i fusnesau yng Ngogledd Cymru						Amh.
O ganlyniad i broblemau gyda'r gofrestr gontractau ac alinio gwybodaeth gyda GwerthwchiGymru, ni ellir adrodd yn fanwl ar y mesurydd hwn.							
M5.5a	Nifer y busnesau a gefnogwyd i wneud cais am gontractau, hyfforddiant, cyllid neu a gafodd gymorth i gydymffurfio â gofynion polisi newydd	309.00	0.00	62.00	0.00		Amh.
Mae'r data i gefnogi'r mesurydd hwn yn cynnwys y busnesau hynny a gefnogwyd drwy Grant Cymorth Busnes Conwy. O ran arian cydgyfeirio yn cyfrannu at y mesurydd hwn, gan mai yn ddiweddar y cymeradwywyd y rhan fwyaf o'r prosiectau, nid oes canlyniadau o'r prosiectau eto ac nid yw Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n darparu'r data hwn ar hyn o bryd. Bydd y mesurydd cydgyfeirio yn 'ddim' hyd nes bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru mewn sefyllfa i ddechrau cyhoeddi'r canlyniadau.							
M5.5b	Nifer y swyddi a gafodd eu creu neu eu gwarchod drwy hwyluso cymorth ariannol	237.50	0.00	208.50	0.00		Amh.
Mae'r un eglurhad yn berthnasol i'r mesurydd hwn â M5.5a							
M5.7	% y plant sy'n byw mewn tlodi (lle mae incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm cyfartalog Prydain)	18.50	0.00	20.70	0.00	0.00	Amh.

5.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Nid yw'r economi'n rhywbeth sy'n gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol ac mae tystiolaeth o hyn yn y cynnydd yng nghanran y plant sy'n byw mewn tlodi, sy'n gallu cael ei effeithio gan nifer o ffactorau economaidd. Fodd bynnag, drwy rai o'n datblygiadau a gweithgareddau lleol a rhanbarthol, gallwn gefnogi'r economi leol. Mae hyn yn amlwg drwy'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi codi proffil y Sir drwy ei dangos ar y teledu a chyfryngau cymdeithasol. Rydym yn arolygu digwyddiadau allweddol i ddadansoddi eu heffaith ar yr economi. Ar gyfartaledd, mae digwyddiadau allweddol yn rhoi enillion ar fuddsoddiad o £32 am bob £1 a fuddsoddwyd.

Rydym yn cael effaith gadarnhaol ar rwydweithio a chyfleoedd busnes lleol a rhanbarthol drwy gyfathrebu a rhwydweithio gyda busnesau lleol. Bydd datblygu Strategaeth Economaidd Conwy'n sicrhau bod gennym ni gynllun hirdymor clir ac uchelgeisiol ar gyfer yr economi leol ac, ynghyd â Strategaeth Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, bydd yn galluogi Cymru gyfan i gydweithio i ddenu mewnfuddsoddiadau i'r ardal.

Mae'r ystadegau isod yn dangos bod diweithdra wedi gostwng, ond mae'n dal yn uwch na chyfartaledd Prydain.

	Nifer sy'n ddi-waith yn Sir Conwy	% Cyfradd Ddiweithdra Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	% Ddiweithdra yng Nghymru	% Ddiweithdra yn y DU
Mawrth 2012	2,741	4.0	4.2	4.0
Mawrth 2013	2,790	4.2	4.2	3.9
Mawrth 2014	2,300	3.4	3.4	2.9
Mawrth 2015	1,625	2.4	2.5	2.1
Mawrth 2016	1,675	2.5	2.4	2.0
Mawrth 2017	1,565	2.4	2.2	2.0

Ffynhonnell: nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau, yr Adran Gwaith a Phensiynau (NOMIS)

5.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae angen adolygu sut rydym yn cofnodi ar y gofrestr gontractau a sicrhau bod y gofrestr yn fwy cywir. Mae goblygiadau penderfyniad y DU i adael yr UE yn aneglur a byddwn yn monitro datblygiadau'n rheolaidd i sicrhau y gallwn gynllunio ar gyfer newidiadau a gwneud y mwyaf o gyfleoedd, lle bo modd. Bydd angen monitro wrth i gyllid Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben er mwyn sicrhau bod y cynllun pontio i ffurfio'r rhaglen gyflogadwyedd yn datblygu yn ôl y disgwyl. Bydd hefyd angen ymgysylltu mwy er mwyn datblygu'r opsiwn a'r model posib' ar gyfer canolbwyntiau cymunedol.

Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy

6.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A6.1	Parhau i gynnal, gwella a rhoi cyhoeddusrwydd i ansawdd ein gwarchodfeydd natur, ein traethau a'n parciau.	 Gwyrdd
Ar hyn o bryd, mae gennym 19 gwobr am ein parciau a'n mannau gwyrdd sef: 9 Gwobr Baner Werdd Aur a gwobr 1af i Landudno a Bae Colwyn yng nghystadleuaeth Cymru yn ei Blodau; Gwobr Arian i Landudno yng nghystadleuaeth Prydain yn ei Blodau; Gwobrau Eich Cymdogaeth, Cymru yn ei Blodau, ar gyfer Cyfeillion Parc y Frenhines, Craig y Don; Parkway, Llandrillo yn Rhos; a Chyfeillion y Fach, Llandudno; Gwobr Baner Werdd Gymunedol i Erddi Cymunedol Sant Cynbryd, Llanddulas; Gwobr Perfformiwr Gorau yng Ngwobrau Rhwydwaith Perfformiad APSE ar gyfer y Gwasanaeth Parciau, Mannau Agored a Garddwriaethol am 3 blynedd yn olynol; Gwobr yr RSPCA am les anifeiliaid a Gwobr Treftadaeth Gwyrdd i Barc Gwledig y Gogarth.		
A6.2	Gweithredu'r strategaeth i fynd i'r afael â safleoedd sy'n 'ddolur llygad' yn y Fwrdeistref Sirol.	Oren
Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ond mae adnoddau'n gyfyngedig iawn sy'n golygu mai gwasanaeth ymatebol yw ar hyn o bryd. Mae rhai achosion wedi'u datrys, ond heb unrhyw adnodd ychwanegol benodol ar gyfer y cam gweithredu hwn mae blaenoriaethu'r gwaith dros gwynion eraill yn anodd. Mae cyllid corfforaethol ar gael i'w neilltuo os oes angen gwneud y gwaith yn niffyg yr adnodd ychwanegol hwnnw, ond ni fu achos i wneud gwaith o'r fath eleni.		
A6.3	Gweithredu Cynllun Rheoli Carbon i ostwng allyriadau carbon y Cyngor.	Oren
Mae'r contract wedi'i roi er mwyn gosod Uned Gwres a Phŵer Cyfunedig a System Rheoli Adeilad yng Nghanolfan Hamdden Bae Colwyn ac mae gwaith ar fynd. Mae cwmpas y gwaith a thendr wedi'u paratoi er mwyn gosod goleuadau LED ar 2 safle. Mae dadansoddiad manwl o ddata wrthi'n cael ei wneud ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb Ynni Adnewyddadwy gyda golwg ar flaenoriaethu safleoedd i gynnal astudiaethau dichonoldeb manylach. Mae mesuryddion clyfar ar gyfer dŵr, nwy a thrydan wedi'u gosod ym Modlondeb ac mae'r feddalwedd gysylltiedig wrthi'n cael ei datblygu. Yn ystod 2016/17, mae cyflwyniadau Ysgolion Carbon Isel wedi'u rhoi mewn ysgolion ar draws y Sir.		
A6.5	Parhau i archwilio sut y gall technoleg newydd fod o fudd o safbwynt arbed costau ac amser er mwyn moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio.	 Gwyrdd
Mae'r broses o gyflwyno Doethwaith yn datblygu'n dda ac mae 56% o'r defnyddwyr amcangyfrifedig ar draws y gwasanaethau y mae disgwyl iddynt symud i weithio'n ddoeth bellach yn defnyddio gliniaduron a Skype for Business. Mae canolfan gyswllt newydd teleffoni wedi'i threialu'n llwyddiannus ym Mhwynt Mynediad Sengl Gofal Cymdeithasol a thîm y Ddesg Gwasanaeth TG. Rydym wrthi'n gwneud archeb i'w gweithredu ar draws gwasanaethau eraill. Mae swyddfeydd Doethwaith y Cyngor yn cael eu diweddaru â sgriniau cyfrifiadur, gorsafoedd docio cyffredinol a ffonau Skype yn ôl angen y gwasanaethau yn rhan o foderneiddio. Mae sgriniau mawr LED a thechnoleg ClickShare wedi'u gosod mewn ystafelloedd cyfarfod i leihau'r angen am bapur mewn cyfarfodydd. Bydd pwyntiau archebu ystafelloedd cyfarfod a sgriniau gwybodaeth ychwanegol hefyd wedi'u lleoli y tu allan i ystafelloedd cyfarfod. Mae sgriniau Xibo wedi'u lleoli yn nhair swyddfa mwyaf poblog y Cyngor, sef y Swyddfeydd Dinesig, Bodlondeb a Ffordd Dinerth i'w treialu fel offeryn cyfathrebu arall ar gyfer swyddogion ac er mwyn lleihau'r angen am hysbysiadau papur. Mae'r Wi-Fi am ddim i westeion wedi'i ehangu gyda chyfnod treialu ar Bromenâd Bae Colwyn a ddechreuodd ddiwedd gwyliau haf yr ysgol ac fe soniwyd amdano mewn sawl erthygl a rhaglen newyddion. YYstyrir ei gynnig mewn mannau eraill os oes modd cael cyllid allanol. Rydym hefyd yn edrych ar ddefnyddio technoleg gofod gwyn teledu i ddarparu cysylltiadau Wi-Fi i gymunedau sy'n cael trafferth â chysylltedd band eang ac yn edrych ar fanteisio ar gysylltiadau band eang cyfredol mewn Canolfannau Twristiaeth i ddarparu Wi-Fi am ddim.		

A6.6	Lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a chwrdd â'n targedau ailgylchu statudol.	Gwyrdd

Mae'r gyfradd ailgylchu o 63% ar ddiwedd y flwyddyn 2.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a dyma'r perfformiad gorau sydd erioed wedi'i gofnodi ar gyfer y mesurydd hwn. Wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol, casglwyd 701 o dunelli yn llai o wastraff trefol gan Gonwy. O'r gwastraff trefol a gasglwyd yn ystod 2016/17, anfonwyd 1,095 o dunelli yn ychwanegol i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

28.47% o wastraff i safleoedd tirlenwi ar ddiwedd y flwyddyn yw'r perfformiad gorau sydd wedi'i gofnodi ar gyfer y mesurydd hwn.
Casglwyd llai o wastraff i gael gwared ag o sydd, yn bennaf, o ganlyniad i weithredu'r newidiadau i drefniadau casglu gwastraff. Roedd y cyfaint o wastraff a gasglwyd o finiau sbwriel ag olwynion 1,923 o dunelli yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Nododd adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Lywodraethu Da wrth benderfynu ar newid (Mai 2017) bod ymagwedd Conwy at ymgysylltu ac ailgylchu'n gadarnhaol.

6.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
M6.1	Nifer y traethau i gael gwobrau arfordirol	7.00	8.00	7.00	0.00		Oren
Cafodd 7 o draethau yng Nghonwy wobrau arfordirol yn 2016. Derbyniodd 3 o'r traethau hyn 2 wobr sy'n gwneud cyfanswm y gwobrau a dderbyniwyd yn 10. Rhoddwyd Gwobrau Baner Las i Benmorfa, Llandudno, Llanfairfechan a Llandrillo yn Rhos. Rhoddwyd Gwobrau Cyrchfan Glan Môr i Benmorfa, Llandudno, Llanfairfechan, Llandrillo yn Rhos, Abergele a Phensarn, Traeth y Gogledd, Llandudno a Phenmaenmawr. Derbyniodd Sandy Cove ym Mae Cinmel Wobr Glan Môr Gwledig a Gwobr Arfordir Gwyrdd.						
M6.2	Nifer y parciau a'r gwarchodfeydd natur sydd â statws Baner Werdd	9.00	9.00	9.00	0.00		Gwyrdd
M6.3	Dangosydd glendid	75.35	75.00	75.73	0.00		Gwyrdd
Wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae'r dangosydd glendid wedi aros ar 76. Roedd % y strydoedd lle'r oedd sbwriel sy'n gysylltiedig â diodydd, melysion a bwyd brys arnynt wedi gostwng ac roedd lefel y sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu wedi aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Mae sbwriel pedestraidd ac o fusnesau wedi gostwng ac mae sbwriel o ffynonellau domestig wedi aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Yn anffodus, mae cynnydd bach o 2% o faw cŵn.						
M6.4a	Nifer y safleoedd a nodwyd sy'n 'ddolur llygaid'	14.00	0.00	16.00	0.00		Amh.
M6.4b	Nifer y safleoedd a nodwyd sy'n 'ddolur llygaid' a gafodd eu gwella	17.00	0.00	11.00	0.00		Amh.
M6.5	% y newid mewn carbon deuocsid	-5.21%	-3.00%	-8.8%	0.00		Gwyrdd
Mae'r mesurydd newydd hwn wedi'i greu i fonitro Carbon o 2016/17 ymlaen yn dilyn diwedd y Cynllun Rheoli Carbon a'r targed cynyddol cysylltiedig. Gosodwyd targed newydd o 3% bob blwyddyn ar gyfer y mesurydd hwn yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru. Yr allyriad carbon ar gyfer 2016/17 oedd 16,611 tunnell. Mae hyn 1,603 o dunelli'n llai na 2015/16, sy'n ostyngiad o 8.8% yn erbyn targed blynyddol o 3%, felly rydym wedi cyflawni'n well na'r targed.						
M6.6	Nifer yr ysgolion yng Nghonwy sydd wedi cael Gwobr Arian Eco-Ysgolion	56.00	56.00	57.00	0.00		Gwyrdd
56 (Gwyrdd 19) (Arian 38). Roedd y cynnydd mewn ysgolion statws baner werdd o ganlyniad i ddwy ysgol – Ysgol Emrys ap Iwan ac Ysgol Pentrefoelas – yn derbyn statws werdd yn ystod y flwyddyn. Mae disgwyl i'r targed ostwng o ganlyniad i gau ysgolion.							

M6.7	% y gwastraff trefol a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd	60.23	62.00	62.63	0.00		Gwyrdd
Mae'r canlyniad o 63% ar ddiwedd y flwyddyn 2.5% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a dyma'r perfformiad gorau sydd erioed wedi'i gofnodi ar gyfer y mesurydd hwn. Wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol, casglwyd 701 o dunelli yn llai o wastraff trefol gan Gonwy. O'r gwastraff trefol a gasglwyd yn ystod 2016/17, anfonwyd 1,095 o dunelli yn ychwanegol i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.							
M6.8	Canran y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi	31.20	35.00	28.47	0.00		Gwyrdd
28.47% ar ddiwedd y flwyddyn yw'r perfformiad gorau sydd wedi'i gofnodi ar gyfer y mesurydd hwn. Casglwyd llai o wastraff i gael gwared ag o sydd, yn bennaf, o ganlyniad i weithredu'r newidiadau i drefniadau casglu gwastraff. Roedd y cyfaint o wastraff a gasglwyd o finiau sbwriel ag olwynion 1,923 o dunelli yn llai na'r flwyddyn flaenorol.							

6.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol iawn ar gyfer perfformiad amgylcheddol, gwella cyfraddau ailgylchu, lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi ac addysgu'r genhedlaeth nesaf am faterion ecolegol. Mae nifer y gwobrau am fannau agored yn dangos safon uchel cyfleusterau'r ardaloedd, sydd oll, yn ogystal â gwarchod a hybu'r amgylchedd, hefyd yn cyfrannu at reoli cyrchfan.

6.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae cyfyngiadau ariannol wedi atal rhywfaint ar y Cyngor wrth reoli safleoedd sy'n 'ddolur llygad', ond fe fyddwn yn parhau i fonitro hyn. Er mwyn lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi eto, mae angen i ni barhau i annog pobl i ailgylchu mwy ac ystyried canlyniadau'r cyfnod o dreialu trefniadau casglu sbwriel bob 4 wythnos. Er ein bod yn gwneud cynnydd da wrth foderneiddio ein ffordd o weithio, bydd 2017/2018 yn flwyddyn allweddol wrth ddatblygu gofod swyddfa newydd.

Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu

7.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A7.1	Hyrwyddo manteision siarad Cymraeg a gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r rhwystrau rhag dysgu Cymraeg.	 Gwyrdd
Mae hyn yn cael ei wneud drwy Safonau'r Gymraeg yn ddyddiol. Cymeradwywyd strategaeth iaith Gymraeg bum mlynedd ym mis Gorffennaf 2017. Bob blwyddyn, mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi i roi tystiolaeth ein bod yn gweithredu Safonau'r Gymraeg. Mae'r holl siaradwyr Cymraeg yn cael cortyn gwddf Cymraeg Gwaith ac mae cortyn gwddf ar gael i ddysgwyr Cymraeg hefyd. Mae'r rhai sy'n siarad Cymraeg hefyd wedi'u nodi ar y system e-bost. 4 cwyn yn unig a wnaed ynglŷn â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Aeth 9 aelod o staff ar gyrsiau Cymraeg yn ystod y flwyddyn. Aeth 154 aelod o staff ar sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn rhan o'r Cyflwyniad Corfforaethol.		
A7.2	Cefnogi rhagor o ysgolion cynradd i addysgu o leiaf 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg.	 Gwyrdd
Yn y flwyddyn ariannol 2016/17, mae 16 o ysgolion yn parhau i addysgu 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Gan ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru, rydym wedi dechrau gwaith ar adolygu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae meysydd blaenoriaeth wedi'u nodi ac er mwyn cyflawni o fewn y meysydd hyn, mae angen mwy o adnoddau e.e. penodiad ar secondiad. Mae angen gwneud gwaith i archwilio'r angen am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws yr Awdurdod Lleol, a fydd yn arwain at greu gwasanaethau priodol wedi'u targedu. Mae 43% o ysgolion cynradd Conwy'n gallu addysgu'r cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae 27% yn gallu addysgu rhan o'r cwricwlwm llawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mabwysiadwyd y Siarter Iaith mewn 45% o ysgolion cynradd Conwy eleni. Bydd yn hyrwyddo defnyddio Cymraeg yn gymdeithasol ac yn hyrwyddo diwylliant Cymru. Mae pryderon am Iaith Gyntaf Diwedd Cyfnod, Cyfnod Sylfaen a thargedau Cyfnod Allweddol 2016. O ganlyniad i hyn, mae strategaethau ymyrryd ar waith i geisio gwella safonau. Datblygwyd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd ar gyfer 2017-20 yn unol â chanllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru.		
A7.3	Gweithredu Cynllun Cyrchfan Conwy i gryfhau twristiaeth a gweithredu Strategaeth Twristiaeth Treftadaeth ar y cyd â phartneriaid lleol er mwyn denu ymwelwyr i ardaloedd o ddiddordeb nad ydynt mor adnabyddus.	 Gwyrdd
Mae gwaith yn cael ei wneud ar gynllun gweithredu Cyrchfan Conwy ac mae'n cael ei rannu â sefydliadau partner, sy'n cynnwys y sector preifat. Mae is-grwpiau penodol ar gyfer canolfannau croeso, marchnata, rheoli cyrchfan a thwristiaeth yn y gaeaf. Mae'r gwaith sydd yn y cynllun yn cysylltu treftadaeth a thwristiaeth ac yn hyrwyddo holl ardaloedd y Sir. Mae cais a ailgyflwynwyd am Gyllid y Loteri Dreftadaeth yn Rownd 1 i brosiect Treftadaeth y Carneddau, sydd dan arweiniad Parc Cenedlaethol Eryri, wedi bod yn llwyddiannus ac mae swyddog datblygu wedi'i benodi i ddatblygu'r cais llawn. Mae prosiect Canolfan Ddiwylliant Conwy wedi cael cymeradwyaeth am gyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac mae disgwyl iddi agor yn fuan yn 2019. Mae safbwyntiau cryf ar dwristiaeth a diwylliant wedi'u cyflwyno i adolygiad Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Cestyll Edward I, gan gynnwys sylwadau am fuddiannau busnesau. Drwy Gynllun Gweithredu Llanrwst, mae tîm y Bartneriaeth Datblygu Gwledig yn parhau i gefnogi Cyngor Tref Llanrwst a Menter Iaith Conwy i ddatblygu prosiect treftadaeth Carrington House – mae cais wedi'i gyflwyno i ail rownd y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Mae tîm y Bartneriaeth Datblygu Gwledig hefyd wedi sefydlu Fforwm Treftadaeth i annog mwy o fentrau cymunedol sy'n seiliedig ar ac wedi'u hysgogi gan dreftadaeth i gael eu datblygu. Mae llawer o gefnogaeth ar draws y bartneriaeth i Flwyddyn Chwedlau 2017 Croeso Cymru, gyda digwyddiad allweddol 'Twrnamaint Conwy' ym mis Mehefin 2017, wedi'i drefnu gan Siambr Fasnach Conwy ond gyda chymorth yr Awdurdod Lleol. Mae'r wefan dwristiaeth yn cael ei diweddaru'n gyson, ynghyd â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol i hybu ac amlygu mannau o ddiddordeb yn y Sir ac mae data twristiaeth diweddar yn dangos bod niferoedd twristiaid yn uwch yn y Sir ac mae busnesau o bob rhan ohoni'n dweud bod yr haf wedi bod yn un da.		

7.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
M7.1a	% y disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2	78.20	80.00	75.70	0.00		Coch
Blwyddyn academaidd 2015/16. Gostyngodd y ganran a gafodd L4+ mewn Cymraeg Ail Iaith ac ni chyrhaeddwyd y targed. Mae gwaith ymyrraeth a dargedwyd wedi'i ddarparu gan dîm cymorth y Gymraeg.							
M7.1b	% y disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 3	86.70	87.00	82.30	0.00		Coch
Blwyddyn academaidd 2015/16. Ni chyrhaeddwyd y targed. Gwnaed gwaith wedi'i dargedu o amgylch rhaglenni trochi a hefyd yng Nghyfnod Allweddol 2, a'r gobaith yw y bydd gwelliant i'w weld y flwyddyn nesaf.							
M7.3	Nifer yr ysgolion Cynradd Cymraeg Ail Iaith sy'n addysgu mwy na 25% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg	16.00	17.00	16.00	0.00		Oren
Mae tîm y Gymraeg wedi darparu cymorth wedi'i dargedu i'r ysgolion sy'n addysgu mwy na 25% o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg.							
M7.4	Nifer y cynlluniau dehongli newydd a ddatblygwyd drwy'r Strategaeth Twristiaeth Dreftadaeth a Chynllun Cyrchfan Conwy	51.00	50.00	68.00	0.00		Gwyrdd
Roedd hyn yn cynnwys: 1) Cefnogaeth barhaus i grŵp Llwybr Pererin Gogledd Cymru – cyhoeddwyd llyfr ym mis Mawrth 2017 2) Cefnogaeth a gwerthusiad, maes o law, o'r Llwybr Llechi 3) Cefnogaeth i gymuned Rowen gyda chais am Grant Cyfleusterau Cymunedol 4) Cynorthwyo i ddod o hyd i safleoedd ar gyfer Prosiect Ecoamgueddfa Cronfa Ranbarthol Ymgysylltu â Thwristiaeth a Blwyddyn Chwedlau 2017 5) Cynllunio a chreu taflenni Drysau Agored 6) Astudiaeth Ddichonoldeb i ddefnyddio a datblygu Elusendai Llanrwst yn y dyfodol 7) Astudiaeth ar gyfer 'Blwyddyn Chwedlau' yn Llanrwst							
M7.5	% yr ymwelwyr a ddywedodd bod hanes a diwylliant lleol yn rhan o'r hyn wnaeth eu denu i'r ardal	37.00	30.00	27.00	0.00		Oren
O arolwg 2016 Croeso Cymru.							

7.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae Cynllun Cyrchfan Conwy yn gwneud cynnydd da ac mae twristiaeth dreftadaeth yn mynd o nerth i nerth. Mae adolygiadau rheolaidd wrth weithredu Safonau Cymraeg Llywodraeth Cymru ac mae'r gwaith bron ar ben. Bydd cymeradwyo Strategaeth Iaith Gymraeg newydd yn ein hannog i hybu'r Gymraeg drwy ein gwaith partneriaeth a bydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol newydd.

7.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r dreftadaeth gyfoethog sydd yn y Sir. Byddwn yn gweithio i gynyddu nifer y staff sy'n mynd ar gyrsiau ymwybyddiaeth iaith ac yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd dadansoddiad yn cael ei wneud i ganfod materion i'w targedu a gwella canlyniadau addysg iaith Gymraeg.

Canlyniad 8 - Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

8.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
A8.1	Byddwn yn adolygu sut rydym yn ymgysylltu â chymunedau ac yn sicrhau bod pob cymuned yn cael cyfle i fod yn rhan o ddatblygu gwasanaethau.	Gwyrdd
Yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, bu i ni ymgymryd â 'Sgwrs y Sir' ar ran yr holl sefydliadau sector cyhoeddus o fewn y Sir. Gan weithio gyda Llais y Sir, bu i ni ymgysylltu â grwpiau cymunedol ar draws y Sir gan sicrhau ein bod yn cynnwys pob ardal ddaearyddol, rhychwant oed ac amrywiaeth o bynciau. Drwy hyn, gallai cymunedau gymryd rhan mewn gwaith datblygu strategol. Derbyniodd yr holl gyfranogwyr adborth ar y dadansoddiad ymgysylltu. Mae'r ymgysylltu â'r gymuned wedi bod yn rhan o'r holl newidiadau i wasanaethau ac rydym bellach yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu cynlluniau lle ac rydym yn datblygu pecyn gwaith i gymunedau. Rydym yn adolygu ein dull o ymgysylltu ac yn gweithio ar ddatblygu canolbwyntiau cymunedol. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Chwefror 2017 gyda staff a oedd yn gyfrifol am ymgysylltu er mwyn gwella sut rydym yn cydlynu gwaith ymgysylltu ac erbyn hyn, mae cynigion o'r gweithdy'n cael eu gweithredu.		
A8.2	Sicrhau bod Aelodau Etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned yn hwyluso rhannu gwybodaeth ac yn helpu cymunedau lleol i leisio eu barn.	Gwyrdd
Yn rhan o Siarter Cymunedau a Rennir, fe gytunodd CBS Conwy a Chynghorau Tref/Cymuned ar gyfrifoldebau penodol. Roedd un o'r rhain yn gofyn i CBS Conwy drefnu cyfarfodydd chwarterol y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. Mae llai a llai yn dod i'r cyfarfodydd hyn ac mae adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i geisio ennyn diddordeb. Bydd datblygu'r canolbwyntiau cymunedol arfaethedig yn helpu i wella cyfathrebu. Rydym hefyd yn disgwyl canlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynghorau Tref a Chymuned. Rydym yn gweithio gyda darparwr TG i geisio datblygu system e-ddeisebau ddwyieithog, ond mae oedi wrth wneud hyn.		
A8.3	Datblygu rhaglen Cwsmeriaid i gydlynu'r amryw brosiectau sydd gennym yn ymwneud â chwsmeriaid er mwyn gwella sut rydym yn cynnig gwasanaethau i gwsmeriaid.	Gwyrdd
Mae Llif Gwaith Blaen Swyddfa / Gwasanaethau i Gwsmeriaid wedi'i ddiddymu ac mae gwaith y grŵp hwn wedi'i rannu rhwng 2 lif gwaith newydd o dan y Rhaglen Foderneiddio, sef Llif Gwaith Gwasanaethau i Ddinasyddion a Llif Gwaith Darpariaeth Ddigidol. Mae Llif Gwaith Gwasanaethau i Ddinasyddion yn gweithio tuag at ddatblygu'r Strategaeth Gwsmeriaid, sydd bellach yn cael ei galw'n 'Bapur Dewisiadau Ymgysylltu â Dinasyddion'. Bydd hon yn pennu'r cyfeiriad o ran sicrhau Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid ar draws yr Awdurdod. Mae Llif Gwaith Darpariaeth Ddigidol yn sicrhau bod gwasanaeth cwsmeriaid yn cael ei ddarparu'n ddigidol ac yn cynnig gwasanaethau trafodion drwy safle gwe Conwy. Mae datblygiadau gwasanaeth i gwsmeriaid ar draws yr awdurdod wedi canolbwyntio ar foderneiddio ein dull o weithio, symleiddio'r pwyntiau cyswllt ac addasu i dechnoleg newydd. Mae hyn yn cynnwys lansio Pwynt Mynediad Sengl y Gwasanaethau Cymdeithasol, Partneriaeth Datrysiadau Tai Conwy a SARTH (Un Llwybr Mynediad at Dai), yr un rhif ffôn ar gyfer yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, lansio Ap Conwy a chynyddu nifer y gwasanaethau sydd ar gael ar-lein megis ceisiadau am swyddi, ceisiadau cynllunio, rhoi gwybod am bethau a thalu am wasanaethau. Mae gwell systemau archebu ar-lein bellach ar waith ar gyfer archebion hamdden a theatr ac mae cyfrifiaduron a chysylltiad di-wifr mewn rhai o'n hadeiladau cyhoeddus er mwyn ceisio gwella gwasanaeth cwsmeriaid. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig gwe-ddarlledu angladdau. Mae cyswllt wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn allweddol a dyna pam y datblygir pwynt cyswllt canolog yn y swyddfeydd newydd. Mae grŵp cyfathrebu wedi'i sefydlu i gynnal arolwg o'n gwaith â chwsmeriaid yn ei hanfod. Mae hyn yn cynnwys rheoli negeseuon allweddol a datblygu achos busnes ar gyfer system rheoli cyswllt. Rydym yn falch bod y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a Gwasanaethau'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau wedi derbyn ail-achrediad Rhagoriaeth Cwsmeriaid unwaith eto.		
A8.4	Gweithredu'r 5 cynllun ardal er mwyn gwella gwasanaethau cymunedol lleol. Mae cynlluniau ardal wedi cael eu datblygu gyda chymunedau ledled y Sir ac maent yn blaenoriaethu'r gwaith y dywedodd y cymunedau lleol eu bod eisiau ei weld yn gwella yn eu hardal.	Gwyrdd
Mae pecyn gwaith y Cynlluniau Lle'n agos at gael ei gwblhau. Mae'r drafft cychwynnol gan Gomisiwn Dylunio Cymru ar hyn o bryd. Mae'r pecyn gwaith yn nodi sut mae creu grŵp ardal ac ymgynghori â'r gymuned i greu cynllun ar gyfer eu hardal nhw. Bydd y pecyn gwaith hefyd yn nodi'r dull ymgysylltu, sut i ddatblygu prosiectau a syniadau i hel cyllid. Ein bwriad yw cyflwyno Cynlluniau Lle yn yr ardaloedd trefol allweddol a defnyddio'r model a osodwyd yng Nghynlluniau Lle Abergele fel y templed. Byddwn yn pennu sut y caiff Cynlluniau Lle eu paratoi, eu statws a sut y dylent gydymffurfio â strategaethau ar lefel uwch		

(e.e. Fframwaith Cenedlaethol, y Cynllun Corfforaethol, y CDLl, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ati). Mae'n allweddol ein bod yn sicrhau bod gennym ddull sy'n gweddu i bob un wrth baratoi a gweithredu Cynlluniau Lle a'n bod yn hyrwyddo'r dull i Gynghorau Tref a Chymuned.

Hoffem gael cymorth gan Gynghorau Tref a Chymuned i adolygu a diwygio'r cynlluniau hyn drwy nodi eu prif flaenoriaethau nhw, i gynnwys agweddau o'r CDLl gan gynnwys dyrannu tir, yr angen am dai ac anghenion busnesau, a phrosiectau newydd neu rai sy'n bod eisoes.

8.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
M8.2	% y trafodion digidol bob blwyddyn	13.00	20.00	6.38	0.00		Coch
Mae'r mesurydd hwn yn cael ei lenwi a'i gyfrifo o 9 mesur ar draws y Cyngor. Nid yw'r holl brosesau ar-lein ar hyn o bryd ond mae cynlluniau i'w symud yn eu blaenau yn y flwyddyn ariannol newydd, felly fe ddylai'r ffigwr hwn wella.							
M8.3a	% y cwynion corfforaethol y llwyddwyd i'w datrys yng ngham 1	89.40	92.00	87.10	0.00		Coch
Y ganran gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw 87.6%, sy'n is na'r targed o 92%, ond mae nifer fawr o gwynion sy'n dal i'w datrys ac felly ni ellir eu cynnwys yn yr ystadegau sy'n effeithio ar y canlyniad.							
M8.3b	Nifer y canmoliaethau a dderbyniwyd	569.00	0.00	527.00	0.00		Amh.
M8.3c	Nifer y cwynion a dderbyniwyd	207.00	0.00	284.00	0.00		Amh.
M8.4	Nifer yr achosion o gamweinyddu a ganfuwyd gan yr ombwdsmon	0.00	0.01	1.00	0.00		Coch
Roedd un gŵyn wedi ei chadarnhau gan yr ombwdsmon ac mae ymchwiliad i un arall.							
M8.5a	% y defnyddwyr a ddaeth o hyd i'r hyn yr oeddent yn chwilio amdano	63.00	70.00	65.00	0.00		Oren
Mae'r mesurydd hwn yn adlewyrchu'r newid o'r hen wefan i'r un newydd. Y canlyniad ar gyfer yr hen safle oedd 65%, a fesurwyd tan 07/02/17. Mae ffigyrau ar gyfer y safle newydd o'r dyddiad hwn tan 31/03/17 yn adlewyrchu gostyngiad o 39%. Mae hyn yn ymwneud â phroblemau gyda'r Porydd Cynllunio (sy'n system allanol a gallai fod yn anodd ei gwella) a gwybodaeth am Ganolfannau Hamdden, ac mae'r rhai o'r rheini eisoes wedi'u datrys.							
M8.5b	Nifer yr ymweliadau â'r wefan gyhoeddus	1,822,966		1,730,851			Amh.
Bu i ni lansio gwefan newydd ym mis Chwefror 2017. Nid oes modd cymharu'r ffigyrau a gasglwyd rhwng y ddwy safle'n uniongyrchol oherwydd y gwahanol strwythur a threfn. Mae'r wefan newydd, er enghraifft, yn canolbwyntio ar dasgau cyffredin ac mae llai o dudalennau arni na'r hen fersiwn. Mae systemau hefyd wedi'u cyflwyno'n wahanol, felly efallai nad yw'r ffigyrau'n adlewyrchu'r un lefelau mynediad o integreiddiadau allanol a oedd ar yr hen fersiwn. Mae peth o'r cynnwys, fel y Cynllun Datblygu Lleol a gwybodaeth gysylltiedig yn dal i gael ei rheoli yn Webstructure ar http://spp.conwy.gov.uk wrth ddisgwyl iddo gael ei symud i'r wefan newydd. Wrth symud tua'r dyfodol, dylem ganolbwyntio ar y tueddiadau sy'n datblygu ym mlwyddyn ariannol 2017/18, a fydd yn adlewyrchu isadeiledd y wefan newydd.							
M8.7	% camau gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gwblhawyd a ddylai fod wedi'u cwblhau yn y flwyddyn ariannol flaenorol	93.00	100.00		0.00		Amh.
Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn derfynol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016 ym mis Mawrth 2017 ac o'r 147 o gamau gweithredu, cwblhawyd 146 (99%) yn llwyddiannus ac roedd y cam diwethaf ar waith wrth lunio'r adroddiad. Mae Adroddiad Blynyddol 2016-17 ar gyfer blwyddyn gyntaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol							

cyfredol o 2016-2020 yn cael ei lunio ar hyn o bryd a bydd wedi'i gyhoeddi erbyn y dyddiad cau deddfwriaethol, sef Mawrth 2018. Mae ymhell dros 100 o gamau gweithredu i adrodd arnynt ar gyfer blwyddyn gyntaf ein cynllun. Eleni, rydym wedi parhau i ennill tir wrth atgyfnerthu ein proses o asesu effaith ar gydraddoldeb.

8.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae gan y Cyngor nifer o ffyrdd i'r cyhoedd allu cael gafael ar wybodaeth, cymryd rhan a mynegi barn. Mae'r rhain yn amrywio o gynlluniau gofal unigol, i ymgynghoriadau cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasol, y wefan, dod i gyfarfodydd cyhoeddus, y Bwletin, arolygon bodlonrwydd, hyd at gysylltu â'u cynghorydd sir. Bydd datblygiad arfaethedig y canolbwyntiau cymunedol a chefnogaeth i ddatblygu cynlluniau lle'n ategu ein hymrwymiad i sicrhau bod pobl yn cymryd rhan, yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais. Roedd Adroddiad Archwilio Cymru 'Llywodraethu Da wrth benderfynu ar newid sylweddol i wasanaethau' (Mai 2017) yn dweud bod 'Conwy'n ymgysylltu â budd-ddeiliaid mewn modd cynhwysfawr ond mae cysondeb asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn amrywio'. Bydd y system newydd i reoli cysylltiadau ar gyfer ein gwefan yn gwella sut mae cwsmeriaid yn gwe-lywio drwy'r wefan ac yn gwella ein gallu i reoli'r wefan a rhyngwynebu gyda rhaglenni eraill e.e. ffonau clyfar. Mae Sgwrs y Sir, datblygu cynlluniau lle a thrafodaethau sy'n parhau â chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, oll yn ein cefnogi wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar adborth a chyfranogiad y gymuned.

8.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Mae rhai o'r camau blaenoriaeth ar gyfer y canlyniad hwn yn cynnwys gwella mynediad digidol. Mae rhai o'n mesurau yn y maes hwn fel cael gafael ar wybodaeth ar y wefan, lansio e-ddeisebau a thrafodion ar-lein yn is na'r targed a bydd angen i ni wella hyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Canlyniad 9 - Mae CBSC yn effeithlon ac wedi'i reoli'n dda

9.1 Ein Camau Gweithredu â Blaenoriaeth

Cod Gweithredu	Enw'r Cam Gweithredu	Perfformiad COG
G1	Byddwn yn ceisio gwella gwasanaethau a chyrraedd ein targedau arbedion drwy foderneiddio ein ffordd o weithio ac adolygu o ble rydym yn gweithio (gofod swyddfa).	Gwyrdd

Mae'r broses o gyflwyno 'Doethwaith' er mwyn i staff allu gweithio'n hyblyg yn datblygu'n dda ac mae 56% o'r defnyddwyr amcangyfrifedig ar draws y gwasanaethau y mae disgwyl iddynt symud i weithio'n ddoeth bellach yn defnyddio gliniaduron a Skype for Business.
Mae canolfan gyswllt newydd teleffoni wedi'i threialu'n llwyddiannus ym Mhwynt Mynediad Sengl Gofal Cymdeithasol a thîm y Ddesg Gwasanaeth TG. Rydym wrthi'n gwneud archeb i'w gweithredu ar draws gwasanaethau eraill.
Mae swyddfeydd Doethwaith y Cyngor yn cael eu diweddaru â sgriniau newydd, gorsafoedd docio cyffredinol a ffonau Skype yn ôl angen y gwasanaethau yn rhan o foderneiddio.
Mae mentrau moderneiddio eraill yn cynnwys:

- dod â'ch dyfais eich hun
- gwefan newydd Conwy gyda mewnrwyd newydd wrthi'n cael ei datblygu
- Skype for Business
- sgriniau digidol
- Wi-Fi cyhoeddus am ddim
- 'ffenestr' mwy hyblyg, hirach ar gyfer y diwrnod gwaith
- swyddfeydd di-bapur neu â llai o bapur
- meddalwedd rheoli perfformiad a rheoli prosiectau
- llai o beiriannau argraffu
- recriwtio ar-lein
- rheoli gwyliau blynyddol ar-lein

Mae pob dim uchod wedi helpu gwasanaethau i foderneiddio'r ffordd maent yn gweithio a chyrraedd eu targedau arbedion.

G2	Byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd am gyllid Ewropeaidd a chyfleoedd eraill am gyllid allanol	Gwyrdd

Mae CBS Conwy bellach wedi derbyn cymeradwyaeth am gyllid ar gyfer 8 prosiect (RET x4, TRAC, OPUS, ADTRAC, Glan y Môr Bae Colwyn), ac mae 4 prosiect arall yn disgwyl i gael eu cymeradwyo (Venue Cymru, Adeiladu ar gyfer y Dyfodol,

Dolwyddelan a Morfa Conwy), ac mae 3 phrosiect arall yn cael eu datblygu (SOTAA (Twristiaeth Awyr Agored), De-ddwyrain Abergele, Masnachfreintiau). Nid oedd cais y prosiect Ein Glannau am gyllid o'r UE yn llwyddiannus, ond rydym yn chwilio am ffynonellau eraill. Hyd yma, rydym wedi derbyn £7m o gyllid ar gyfer prosiectau gwerth £9.8m. Hyd yn hyn, mae Darpariaeth Ariannu Cyfatebol Prosiectau, sydd wedi'i defnyddio i ddarparu arian cyfatebol i gyllid Ewropeaidd a chyfleoedd cyllid allanol, wedi dyrannu £3,129,251 o ddarpariaeth 2016/17 ar gyfer prosiectau gwerth £21 miliwn.		
G4	Bydd staff yn cael Adolygiad Datblygu Perfformiad (ADP) i sicrhau eu bod yn glir am eu blaenoriaethau gwaith, sut mae eu gwaith yn cyfrannu at y darlun ehangach a pha gyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu eu sgiliau.	Gwyrdd
Rydym yn parhau i fonitro % y ADPau sydd wedi'u cyflawni ac mae'r rheolwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd. Mae'r ADPau yn cael eu monitro ym mhob adolygiad perfformiad gwasanaeth pob 6 mis gyda phob gwasanaeth. Mae tanberfformiad yn cael ei drafod a'i herio. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu fframwaith yr ADP ac rydym yn gweithio tuag at symud y broses ADP ar-lein yn ein system gorfforaethol, iTrent. Ffigwr cyffredinol cwblhau ADPau y Cyngor oedd 76%, sy'n gynnydd o 3.21%. Fe wnaeth 10 gwasanaeth yn well na tharged y Cyngor o gwblhau 80% o ADPau.		

9.2. Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth?

Cod y Mesurydd	Teitl y Mesurydd	Gwirioneddol 15/16	Targed 16/17	Gwirioneddol 16/17	Meincnod	Safle meincnod	Perfformiad COG
GM1	% y staff sydd wedi cael ADP yn y 12 mis diwethaf - cyfanswm Cyngor Conwy	72.79	80.00	76.00	0.00		Oren

9.3 Hunanwerthusiad o'n perfformiad

Mae'r rhaglen foderneiddio'n faes gwaith arwyddocaol, o ran adeiladu, datblygu economaidd, mantais gymunedol, trawsnewid digidol a newid diwylliannol. Mae pob un o'r rhain yn hanfodol i ddiwallu anghenion a disgwyliadau'r oes ddigidol rydym yn byw ynddi. Mae swyddogaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n allweddol i sicrhau bod y Cyngor yn parhau'n effeithlon ac wedi'i reoli'n dda. Adolygwyd y swyddogaeth graffu yn ystod 2016/17 ac fe roddwyd strwythur craffu newydd ar waith ar 1 Mai 2017. Strwythur y pwyllgorau yw: Cyllid ac Adnoddau; Economi a Lle; Gofal Cymdeithasol ac Iechyd; ac Addysg a Sgiliau.

Mae gwaith moderneiddio hefyd wedi cynnwys gwaith i wneud Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn greiddiol. Mae'r Ddeddf yn rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol ar yr holl gyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i sicrhau bod yr holl gyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, sydd wedi'i fwriadu i gyflawni nodau lles. Datblygodd grŵp corfforaethol, wedi'i gadeirio gan y Prif Weithredwr, gynllun gweithredu i bennu pa newidiadau roedd angen i'r Cyngor eu gwneud. Mae diweddariadau ar gynnydd yn cael eu hadrodd wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Mae'r ffocws wedi bod ar godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r Ddeddf ac adolygu strategaethau a pholisïau allweddol. Dilynwyd y trywydd hwn mewn adolygiadau o berfformiad gwasanaethau i bennu pa newidiadau roedd gwasanaethau wedi'u gwneud i adlewyrchu'r 5 ffordd o weithio.

Rydym yn parhau i wneud y mwyaf o gyllid Ewropeaidd ond rydym hefyd yn monitro effaith bosibl Brexit.

9.4 Meysydd i'w gwella / datblygu

Er bod y cyfradd yr Adolygiadau Datblygu Perfformiad wedi gwella, byddwn yn parhau i'w monitro gyda'r nod o gyrraedd y targed.

5 Gweithio ar y Cyd

Un ffordd o blith nifer o wella effeithlonrwydd gwasanaethau yw cyflawni gwaith ar y cyd. Cymeradwywyd Datganiad Cydweithio gan Gyngor Conwy ym mis Tachwedd 2010 er mwyn sicrhau trefn lywodraethol dda a gwerth am arian, a sicrhau bod blaenoriaethau a gwerthoedd yr awdurdod yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu wrth weithio mewn partneriaeth.

Mae Conwy'n hen gyfarwydd â gweithio mewn partneriaeth ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithio ledled y rhanbarth a ledled Cymru er mwyn sicrhau gwelliannau i ansawdd gwasanaethau a gwerth am arian i drigolion Conwy. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n aelod o Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu nifer o fentrau. Mae'r buddion a ragwelir yn amrywio. Pwrpas rhai yw gwella effeithlonrwydd gwasanaethau, osgoi costau a gwneud arbedion, a phwrpas eraill yw gwella safonau neu wytnwch gwasanaethau.

Rydym wedi llunio canllawiau ynglŷn â gweithio ar y cyd sy'n amlinellu'r camau y dylai Swyddog yng Nghonwy eu dilyn wrth arwain ar ddechrau gwaith ar y cyd gyda sefydliadau cyhoeddus eraill. Rydym hefyd wedi datblygu asesiad o fuddion gweithio ar y cyd a ddefnyddiwyd ar gyfer mentrau y mae Conwy wedi'u harwain. Bwriad yr asesiad yw sicrhau ein bod yn gwybod a wnaethom wireddu'r manteision a ragwelwyd. Mae'r holl fentrau cydweithio'n cael eu cofnodi ar daenlen cydweithio ac ers diddymu'r Byrddau Gwella, maent yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Nid yw'r rhestr isod yn adlewyrchu pob maes gwaith, ond yn hytrach yn amlygu'r prosiectau sydd wedi eu sefydlu y mae Conwy yn arwain arnynt ac/neu sy'n cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (amcanion gwella). Mae prosiectau ar y cyd sy'n awr ar waith, ac yn cael eu hystyried fel 'busnes arferol' neu'n cydlynu partneriaethau yn hytrach na phrosiect a reolir, wedi'u tynnu o'r rhestr.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
1	Prosiect Cydweithio Gwarchod y Cyhoedd Gogledd Cymru	Cydlynol	Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Disgrifiad

Darparu gwasanaethau gwarchod y cyhoedd yn rhanbarthol.
Y blaenoriaethau darparu gwasanaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt yw cyflawni prosiectau ar:
1. Un Adolygiad Ansawdd Aer Lleol ac Adroddiadau Asesu
2. Asesiadau Tir Halogedig
3. Troseddau Amgylcheddol: Cynllunio gwasanaeth a chymorth
4. Polisïau Trwyddedu
5. Cymorth busnes wedi'i dargedu ar gyfer safleoedd bwyd sydd â sgôr hylendid 'gwael'
6. Tai: Trwyddedu tai amlfeddiannaeth
7. Monitro Radon ar safleoedd
8. Gwerthu dan Gyfyngiadau Oedran - Hyrwyddo cynlluniau profi oedran wedi'u hachredu gan PASS yng Ngogledd Cymru
9. Gweithredu Strategaeth ar Drosedd ar Stepen y Drws
10. Cynllun Cymeradwyo Masnachwyr - Gweithredu

Y buddion o gydweithio

Osgoi costau - Teithio, amser swyddogion, amser rheoli, hyfforddiant – cynllunio prosiectau unwaith, nid chwe gwaith.
Caffael - Caniatáu costau llai o ran cyngor a chymorth Systemau Rheoli a Gwybodaeth Reoleiddio (a system gronfa ddata Tascomi yn y dyfodol).
Gwella Gwasanaeth - Mae effaith prosiectau rhanbarthol yn well ar gyfer y gymuned.
Gallu cadw staff yn well.
Ysbryd staff yn uwch - mae rolau arwain prosiectau ac adroddiadau arfer orau'n gwella gyrfaoedd ac yn rhoi cyfle i fod yn rhan o waith rhanbarthol mwy.
Mwy o sgiliau.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
2	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych	Integredig	Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Disgrifiad

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd yn gweithredu ers 2008. Y nod yw atal troseddau ac anhrefn yng Nghonwy a Sir Ddinbych drwy weithio mewn partneriaeth.

Y buddion o gydweithio

Gwell cydlynu.
Llai o ddadleoli troseddau.
Llai o ailadrodd.
Gwerth ychwanegol.
Llai o droseddu.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
3	Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru	Cydlynol	Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
Disgrifiad			
Cydlynu gweithgarwch i leihau trosedd ar draws Gogledd Cymru. Y blaenoriaethau ar lefel ranbarthol yw: iechyd meddwl, troseddau cudd (cam-drin domestig/cam-drin rhywiol), troseddau drwy ddefnyddio technoleg, camfanteisio'n rhywiol ar blant a gwrthderfysgaeth PREVENT.			
Y buddion o gydweithio			
Sicrhau bod gwaith ar y cyd ar draws Gogledd Cymru ar droseddau difrifol. Ymateb cydlynol y bydd dinasyddion Conwy'n elwa ohono'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.			
Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
4	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych	Cydlynol	POB UN
Disgrifiad			
Yn Ebrill 2016, sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fwrdd statudol, a elwir yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi defnyddio grym o fewn y Ddeddf i uno eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn un Bwrdd ar gyfer rhanbarth Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r Bwrdd yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio i wella lles eu siroedd.			
Y buddion o gydweithio			
Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn datblygu eu hamcanion lles. Fodd bynnag, mae'r bwrdd yn gweithio ar flaenoriaeth yn y cyfamser – 1000 Diwrnod Cyntaf Bywyd. Bydd y buddion yn fwy eglur pan mae'r amcanion wedi'u gosod, ond mae sefydlu'r Bwrdd yn cynnig buddion fel: Mynediad at gyllid na all sefydliad unigol gael mynediad ato; Cadw aelodau partneriaeth gan ei fod bellach yn fwrdd ar y cyd; Mwy o staff ac arbenigedd yn gweithio gyda'i gilydd ar flaenoriaethau'r Bwrdd; Mwy o allu i rannu gwaith ar flaenoriaethau'r Bwrdd.			
Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
5	Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol Conwy	Cydlynol	Canlyniad 1 – Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus
Disgrifiad			
Mae Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol am roi partneriaeth ar waith i gydweithio ar ddatblygu a dysgu'r gweithlu ar gyfer y sector gofal cymdeithasol gyfan ym mhob awdurdod lleol.			
Y buddion o gydweithio			
Cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol a chefnogaeth i'r sector gwrdd â gofynion Deddf Rheoleiddio ac Archwilio (Cymru). Mwy o gyfleoedd am waith i drigolion Conwy. Datblygu gweithlu medrus. Gwella safon y gofal sy'n cael ei ddarparu yng Nghonwy			

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
6	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Bwrdd Rhan 9)	Cydlynol	Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol

Disgrifiad

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae Rhan 9 yn y Ddeddf yn nodi cyfrifoldebau penodol ar bartneriaid o ran gweithio mewn partneriaeth a chreu trefniadau llywodraethu newydd. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod Awdurdodau Lleol a'u Byrddau Iechyd Lleol yn sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaeth i sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cynllunio'n strategol ac yn gweithio mewn partneriaeth ac er mwyn sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth effeithiol ar gael.

Y buddion o gydweithio

Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i mewn i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau'n effeithiol.
Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn dulliau ar y cyd sy'n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau).
Mae pobl yn gallu defnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, wedi'u cefnogi gan ystod o opsiynau safon uchel sy'n seiliedig ar y gymuned.
Sefydlu arfer o benderfynu ar y cyd fel y gall trigolion a'u cymunedau siapio gwasanaethau.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
7	Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol	Cydlynol	Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol

Disgrifiad

Ffocws y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol bellach fydd cydoruchwylio comisiynu strategol ar draws darpariaeth gwasanaethau Oedolion a Phlant yng Ngogledd Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd y Bwrdd yn rhoi sicrwydd a chyfarwyddyd i bartneriaid o fewn cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod comisiynu gwasanaethau yng Ngogledd Cymru yn seiliedig ar arfer gorau, rhoi gwerth am arian a gwasanaethau o ansawdd sy'n gynaliadwy. Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, comisiynwyr iechyd a swyddogion caffael.

Y buddion o gydweithio

Cydlynu rhaglen waith ranbarthol ar gomisiynu strategol wedi'i chymeradwyo yn effeithiol wrth ei rhoi ar waith.
Casglu a rhannu gwybodaeth ar arfer gorau ar draws y rhanbarthau.
Sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â grwpiau o fudd-ddeiliaid.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
8	Partneriaeth Ranbarthol Anableddau Dysgu	Integredig	Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol

Disgrifiad

Mae Grŵp y Bartneriaeth Anableddau Dysgu'n fforwm sydd â chyfraniad amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol ar lefel uwch. Drwy weithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol, y bwrdd iechyd, defnyddwyr gwasanaeth a'r sector gwirfoddol, mae'r grŵp yn mynd i'r afael â materion gwasanaeth allweddol ac yn goruchwylio wrth ddatblygu'r gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru. Mae'n fforwm er mwyn ymdrin â materion, themâu a gweithredoedd busnes cyffredin, a dod o hyd i ateb iddynt.

Y buddion o gydweithio

Gweithio gyda'r 6 awdurdod lleol sydd yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaethau Plant i ddatblygu Gwasanaethau Anableddau Dysgu.
Wrth wneud hynny, ystyried demograffeg a disgwyliadau deddfwriaethol sy'n newid, fel y rhai sydd yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a Law yn Llaw at Iechyd.

- Cytuno sut y dylid gweithredu cynlluniau busnes a phrosiectau allweddol sy'n ymwneud â chydweithio.
- Ystyried goblygiadau ariannol pecynnau gwaith ac ystyried dyrannu adnoddau i gynorthwyo cynnydd o ran datblygiadau allweddol.

- Nodi, dyrannu, cefnogi a monitro canlyniad y pecynnau gwaith y cytunwyd arnynt yn unol â datblygiadau newydd, gan dderbyn adborth yn rheolaidd gan arweinwyr y pecynnau gwaith ar gynnydd o ran y camau gweithredu allweddol a nodir.
- Nodi, dosbarthu a chydlynu wrth gyflwyno cynlluniau gweithredu i ymateb i arfer gorau sydd wedi'i gydnabod, adroddiadau / canllawiau cenedlaethol a gorchmynion strategol perthnasol eraill. Gwneud hyn drwy e-bost os oes cymaint o frys nes bod angen ymateb cyn i'r grŵp gyfarfod.
- Derbyn a dosbarthu diweddariadau sy'n ymwneud â datblygiadau statudol ac anstatudol i'r gwasanaeth, gan gynnwys gweithgarwch defnyddwyr gwasanaeth.
- Ystyried y galw a thueddiadau'r dyfodol o ran twf yn nifer y cleientiaid.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
9	Pwynt Mynediad Sengl	Integredig	Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol

Disgrifiad

Darparu ymatebion rheng flaen i drigolion sy'n chwilio am wybodaeth, cyngor a chymorth o ran anghenion iechyd, gofal cymdeithasol neu les.

Y buddion o gydweithio

Hawdd cael gafael ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd i oedolion, sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gael cymorth gan nyrsys ardal a gweithwyr cymdeithasol / therapyddion galwedigaethol gydag ymateb cydlynol.

• Gwella safon y gwasanaeth drwy ehangu'r ddarpariaeth.
• Gwella gwytnwch drwy rannu staff a gwybodaeth.
• Helpu pobl hŷn yn enwedig i aros yn iach a byw'n annibynnol o fewn eu cymunedau eu hunain.
• Rhoi digon o wybodaeth i drigolion allu eu cynnal eu hunain yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau statudol.
• Ymateb yn sydyn os yw eu sefyllfa'n newid drwy gynnig gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
10	Cydweithfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru (NWSSIC)	Integredig Rhanbarthol	Canlyniad 4 - Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac yn annibynnol

Disgrifiad

Sefydlwyd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru ym mis Medi 2006 ac mae'n cynnwys y 6 Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru yn ogystal â Chadeiryddion Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru (NWASH) a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru (NWHOCS). Mae'r rhaglen gydweithredol yng Ngogledd Cymru wedi ei rhannu i feysydd gwasanaeth. Mae cyfarwyddwr arweiniol a bwrdd ar gyfer pob un:

- Gwasanaethau Integredig
- Diogelu (Oedolion a Phlant)
- Gweithlu
- Comisiynu
- BIPBC
- Gwelliant

Mae gan y rhaglen gydweithredol yng Ngogledd Cymru amrywiaeth o brosiectau ar gamau amrywiol o ddatblygu a gweithredu. Daw'r rhan fwyaf o gyllid ar gyfer cydweithredu drwy grantiau gan Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid Cydweithio Rhanbarthol, Cronfa Gofal Canolraddol a chyllid Trawsnewid.

Y buddion o gydweithio

Nod NWSSIC yw darparu arweinyddiaeth a rheolaeth strategol o ystod o raglenni iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru. Mae'n ceisio gwella gwasanaethau, gwneud y gorau o adnoddau sydd ar gael, lleihau dyblygu, sicrhau cysondeb a thrawsnewid. Mae mwy o wybodaeth ar wefan NWSSIC www.ssiacymru.org.uk

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
11	Grŵp Gweithredu Lleol Conwy	Cydlynu drwy gyllid grant yr UE	Canlyniad 1 - Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy Canlyniad 7 - Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu Canlyniad 8 - Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

Disgrifiad

Y weledigaeth ar gyfer Grŵp Gweithredu Lleol Conwy yw: "Creu dyfodol llewyrchus i Gonwy wledig"
Er mwyn gwneud hynny, maent wedi penderfynu ar yr amcanion strategol hyn:
AS1. Datblygu sylfaen economaidd amrywiol a gweithlu â chymwysterau addas yng Nghonwy.
AS2. Darparu cludiant hygyrch ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at gludiant cyhoeddus confensiynol.
AS3. Gwella ymelwa economaidd o'r amgylchedd diwylliannol, adeiledig a naturiol.
AS4. Cefnogi cydlyniant / integreiddio cymunedol a mynediad at wasanaethau sylfaenol.

Dyma'r themâu LEADER sy'n rhan ohoni:
1. Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
2. Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
3. Ymchwilio i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
4. Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol
5. Manteisio ar dechnoleg ddigidol.

Dyma'r themâu trawsbynciol:
• Trechu Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol
• Cyfleoedd Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw
• Datblygu Cynaliadwy
• Y Gymraeg
• Cefnogi'r Ucheldir

Y buddion o gydweithio

Swyddogaeth graidd y Grŵp Gweithredu Lleol yw cyflawni prosiectau LEADER o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r bwrdd yn lle i gydlynu gweithgarwch lleol er mwyn adfywio'n gynaliadwy. Mae'n rhaid i'r Grŵp Gweithredu Lleol fodoli er mwyn i'r Sir allu derbyn cyllid LEADER.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
12	Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB)	Cydlynu Rhanbarthol	Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus

Disgrifiad

Bwriad y prosiect hwn yw sefydlu dull gweithredu strategol ar draws y rhanbarth i wella Economi Gogledd Cymru. Mae gan y Bwrdd nifer o ffrydiau gwaith ac mae Conwy'n rhan lawn ohonynt: datblygu'r gadwyn gyflenwi, sgiliau, cysylltedd ac isadeiledd, mewnfuddsoddi ac Ewrop. Conwy sy'n cadeirio'r diwethaf ac mae wedi ysgwyddo'r rôl fel corff arweiniol Prosiect y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ar ran y Bwrdd. Mae'r tîm Ymgysylltu wedi'i leoli yng Nghanolfan Fusnes Conwy.

Y buddion o gydweithio

Gweledigaeth y Bwrdd yw sicrhau bod Gogledd Cymru'n rhanbarth hyderus ac eangfrydig sydd ag economi amrywiol, gwerth uchel, sy'n darparu ystod o gyfleoedd gwaith cynaliadwy o safon ar gyfer y trigolion. Y buddion fydd cynnydd o ran cynhyrchiant economaidd, y gallu i gystadlu a thwf yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cael ei fesur drwy (leihau) y bwlch rhwng a) cyfraddau rhanbarthol a chenedlaethol twf blynyddol Gwerth Ychwanegol Gros; a b) y bwlch rhwng yr ardaloedd hynny sydd ar ei hôl hi o ran y gyfradd twf cyfartalog rhanbarthol a'r rhai sy'n perfformio'n well.

Y buddion o gydweithio

Y buddion a wireddwyd yw'r arbedion effeithlonrwydd a geir o ganlyniad i arbedion maint.

13	Rhaglen Bywyd y Bae / Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	Cydlynol	Canlyniad 5 - Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus

Disgrifiad

Sicrhau bod gwaith i adfywio Bae Colwyn yn cael ei gyflawni'n integredig.
Cyflawni rhaglen o welliannau a mentrau adfywio yn ardal adfywio ehangach Conwy, sy'n unol â'r themâu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Arfordir Gogledd Cymru 2016 Llywodraeth Cymru. Cydlynu wrth gyflawni Prif Gynllun Bae Colwyn a'r prosiectau o ganlyniad iddo.
Cydlynu wrth roi ystod o ffrydiau cyllido ar waith i gefnogi wrth adfywio a gwella'r ardal, gan gynnwys cyllid rhanbarthol, ardaloedd adfywio a chyllid Ewropeaidd.
Cydlynu gweithgareddau'r rhaglen gyda chynlluniau cyd-ddibynnol, yn enwedig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r ardal adfywio ehangach.
Sicrhau bod rhannau o'r rhaglen yn cael eu cyflawni ar amser.

Y buddion o gydweithio

Mae gan bobl yn yr ardal adfywio gyfle i gael eu haddysgu a dysgu'r sgiliau i'w galluogi i gyflawni eu potensial llawn.
Mae gan bobl yn yr ardal adfywio gartrefi diogel ac addas sydd wedi'u gwella, gyda mynediad lleol at wasanaethau cymorth.
Mae pobl yn yr ardal adfywio'n iach, diogel, egnïol ac annibynnol ac yn well o ran eu lles.
Mae gan yr ardal adfywio economi ffyniannus, gynaliadwy a llewyrchus ac mae'n lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld ag o.
Mae gan yr ardal adfywio amgylchedd ffisegol a naturiol a reolir yn ofalus er mwyn gallu defnyddio ei botensial i'r eithaf ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.
Mae'r ardal adfywio'n lle hawdd i deithio ynddo, i'w gyrraedd ac i anturio.
Mae'r ardal adfywio'n gymuned gydlynol sy'n cael gwybodaeth.
Mae portffolio prosiectau'r rhaglen wedi'i gynllunio i gyflawni'r buddion hyn o fewn amserlen y rhaglen.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
14	Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru	Integreiddio Rhanbarthol	Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy

Disgrifiad

Dull gweithredu rhanbarthol yw'r prosiect hwn ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff gweddilliol. Ei nod yw sicrhau datrysiad cynaliadwy, hirdymor a chost-effeithiol ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth.

Y buddion o gydweithio

1. Osgoi costau o £31,288,000 dros y cyfnod o 1 Ebrill 2015 tan 31 Mawrth 2041.
2. Costau caffael wedi'u rhannu rhwng pum awdurdod.
3. Mae ynni o wastraff yn ddatrysiad amgylcheddol mwy cynaliadwy na thirlenwi. Bydd hyn hefyd yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar berfformiad tuag at dargedau ailgylchu

statudol a rhwymedigaethau i anfon llai i safleoedd tirlenwi.
4. Mae'n ddatrysiad hirdymor a chynaliadwy i drin gwastraff.
5. Ni fydd gwastraff yn cael ei gladdu dan ddaear mwyach – bydd yn cael ei drin mewn modd mwy cynaliadwy.
6. Cynorthwyo'r Cyngor i gadw at ymrwymiadau amgylcheddol a chyfrifoldebau ailgylchu strategol.
7. Lleihau'r risg na fydd gan yr Awdurdod Lleol ddatrysiad hirdymor i drin gwastraff gweddilliol (nad yw'n ailgylchadwy).

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
15	Canolfan Gwastraff Bwyd Gogledd-ddwyrain Cymru	Integreiddio Rhanbarthol	Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy

Disgrifiad

Dull gweithredu rhanbarthol ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff bwyd yw'r prosiect hwn. Ei nod yw sicrhau datrysiad cynaliadwy, hirdymor a chost-effeithiol ar gyfer trin gwastraff bwyd yn y rhanbarth.

Y buddion o gydweithio

Bydd y buddion yn cynnwys osgoi costau o £1,276,730 dros gyfnod o 15 mlynedd a chostau caffael wedi eu rhannu rhwng 3 awdurdod.

Cyf	Enw'r Cydweithio	Y Math o Gydweithio	Cysylltiad â'r Canlyniad Corfforaethol
16	Cyfleuster Arddangos Compost Rhanbarthol Gogledd-orllewin Cymru	Integreiddio Rhanbarthol	Canlyniad 6 - Mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy

Disgrifiad

Mae hwn yn brosiect cydweithio ar gyfer Cyfleuster Arddangos Compost Rhanbarthol Gogledd-orllewin Cymru i drin gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd yr ardd i Safon PAS 100 gan gydymffurfio â rheoliadau Cynnyrch Anifeiliaid.

Y buddion o gydweithio

Mae trin gwastraff bwyd a'r ardd yn gynaliadwy yn creu cynnyrch i wella pridd.
Mae trin gwastraff yn gynaliadwy'n cydymffurfio â'r datrysiad a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trin bwyd a'r un mwyaf cynaliadwy – treulio anaerobig.
Osgoi costau o anfon gwastraff bwyd i safleoedd tirlenwi. Osgoi dirwyon o £200 fesul tunnell am beidio â chyrraedd targedau ailgylchu statudol.
Mantais o raddfa fawr – datrysiad trin gwastraff hirdymor.
Mae'n cyfrannu tuag at dargedau ailgylchu statudol fel datrysiad trin gwastraff cynaliadwy o gymharu â thirlenwi.

6.1 Adroddiad Gwella Blynyddol 2016/17

Bob blwyddyn, mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cynlluniau gwelliant a threfniadau adrodd cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol Cymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn bodloni dyletswyddau statudol i wella'n barhaus. Mae'r canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol manwl ar bob awdurdod ar sail gylchol (o leiaf unwaith bob pedair blynedd ar hyn o bryd).

Dyma oedd casgliad Adroddiad Gwella Blynyddol 2016/17:

Mae'r Cyngor, gyda threfniadau rheoli arian a chraffu cadarn, yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth.
Mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol sydd arno o ran gwelliant parhaus. Nid oedd unrhyw argymhellion na chynigion ychwanegol i wella.

Gallwch weld yr adroddiad yma
https://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/cyngor-bwrdeistref-sirol-conwy-adroddiad-gwella-blynyddol-201617

6.2 Adroddiadau arolygon eraill a gyhoeddwyd yn 2016/2017

Yn ystod 2016/2017, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru'r archwiliadau canlynol. Pan fo adroddiadau wedi'u cyhoeddi, mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu llunio er mwyn rhoi'r argymhellion ar gyfer gwella ar waith:

Enw'r Archwiliad	Disgrifiad Byr	Barn Archwilio
Llywodraethu'n dda wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau	A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau?	"Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn er mwyn penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae cysondeb asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn amrywio ac nid oes tryloywder wrth gofnodi arbedion yn sgil gwneud newidiadau i wasanaethau." Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Gorffennaf 2017
Cynllunio Arbedion	A yw trefniadau cynllunio arbedion ariannol y Cyngor yn ategu gwytnwch ariannol?	Er nad oes gan y Cyngor lawer o arian yn y cronfeydd wrth gefn, mae'n parhau i fod â threfniadau rheoli arian priodol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol. Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Gorffennaf 2017
Gwytnwch Ariannol Awdurdodau Lleol – 2015-2016 Adroddiad cenedlaethol	Cynhaliwyd adolygiad o berfformiad ariannol cyfredol y 22 awdurdod lleol yng Nghymru gan Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, gan edrych ar ansawdd y trefniadau rheoli arian, er mwyn pennu lefel eu gwytnwch wrth ddiwallu'r heriau.	Mae'r gwaith yn adeiladu ar ein hadroddiadau cynharach ar wytnwch ariannol awdurdodau lleol ac yn asesu cadernid trefniadau rheoli a chynllunio i gefnogi gwytnwch ariannol ym mhob awdurdod, gan ganolbwyntio ar sut y maent yn cynllunio ac yna'n cyflawni eu hymrwymiadau cyllidebol. Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Tachwedd 2016
Adolygiad o drefniadau rheoli asedau	A yw trefniadau rheoli eiddo ac asedau'r Cyngor yn ategu prosesau penderfynu a gwella cadarn ac effeithiol?	Mae dull y Cyngor o reoli asedau'n hyrwyddo defnydd effeithiol o'i asedau eiddo, ond nid yw trefniadau cyd-gynllunio asedau a threfniadau adrodd am berfformiad wedi eu datblygu'n llawn. Adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, Medi 2017

Gallwch ddod o hyd i bapurau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yma:
http://modgovcym.conwy.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=176&Year=0

6.3 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn annog gwelliannau ym meysydd gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae'n cyhoeddi Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol. Gellir canfod eu hadroddiadau ar wefan AGGCC, http://cssiw.org.uk/?lang=cy

Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei lunio yn rhan o'r hyn a elwir yn Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor. Mae'n cynnwys Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr a gwybodaeth am gyflawniadau allweddol y gwasanaeth yn y flwyddyn flaenorol a'r prif amcanion ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Gellir ei ddarllen ar wefan y Cyngor:
http://adroddiadblynyddolgwasanaethaucymdeithasolconwy.org.uk/

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o brif lwyddiannau ac arferion da 2016/2017 ac yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2017/2018.

Yn ystod 2016/2017, cafwyd yr adroddiadau arolygu allanol canlynol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

1) 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus'

Yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fis Tachwedd 2016

Ystyriodd yr adolygiad:

'I ba raddau y mae gwaith y gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol wrth helpu pobl sydd angen gofal a chymorth a'u rhieni a'u gofalwyr i gael canlyniadau da' ac 'A yw trothwyon yn cael eu bodloni fel mater o drefn ar gyfer plant a phobl ifanc y mae eu lles yn cael ei beryglu i'r graddau eu bod yn destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus'.
Nodwyd arferion da a meysydd i'w gwella ac fe luniwyd cynllun gweithredu yn unol â hynny i gyflawni gwelliannau.

- Roedd cymorth cyfreithiol ar gael, yn effeithiol ac yn werthfawr i staff.
- Roedd staff a welwyd yn dangos sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac roedd yr angen am sicrhau bod teuluoedd a phlant a phobl ifanc yn cael digon o wybodaeth yn gwbl glir iddynt. Yn ar achosion a adolygwyd, roedd gweithwyr cymdeithasol wedi darparu cymorth ychwanegol er mwyn i rieni allu deall canlyniadau posib' proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn llawn.
- Roedd ystod dda o wasanaethau cymorth yn cael eu darparu gan dîm mewnol – roedd staff y tîm â sgiliau mewn gwaith a thechnegau uniongyrchol.
- Roedd ethos cryf o hawliau plant yn amlwg ar draws y gwaith a oedd yn cael ei wneud o dan broses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a welwyd gan yr arolygwyr. Roedd staff yn canolbwyntio ar y plant ac fe welwyd enghreifftiau o sgiliau cyfathrebu lefel uchel yn cael eu defnyddio i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol.
- Safon y gwaith roedd y Tîm Ymyriadau Teuluol yn ei wneud
- Roedd y berthynas waith rhwng teuluoedd / plant a staff yn cael ei gwerthfawrogi.

2) Llys Elian

Cynhaliodd AGGCC arolygiad dirybudd fis Hydref 2016 yn Llys Elian, cartref gofal i bobl hŷn â dementia. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2016 a'i gasgliad oedd:

"Mae staff yn rhoi cymorth i bobl mewn ffordd gynnes sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelsom fod gan pobl beth dewis o ran gweithgareddau dyddiol. Er hynny, gwelsom nad oedd bob amser ddigon o staff i roi cymorth i bobl dderbyn y gofal iawn ar yr adeg iawn a sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd i gael eu difyrru gan weithgareddau o'u dewis."

ESTYN

Cafodd cyfanswm o 9 ysgol gynradd eu harolygu gan Estyn yn ystod blwyddyn ariannol 2016/2017. Barnwyd bod 7 yn dda, 1 yn ddigonol ac 1 yn anfoddhaol.

Ardderchog	0
Da	7
Digonol	1
Anfoddhaol	1

Arolygwyd 1 ysgol uwchradd ar yr un adeg a barnwyd bod safon honno'n ddigonol.

Ardderchog	0
Da	0
Digonol	1
Anfoddhaol	0

Mae cynlluniau gweithredu wedi'u rhoi ar waith lle roedd angen er mwyn gwella.

7 Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus (MACau) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Er mwyn asesu a chymharu pa mor dda rydym ni'n gwneud ar draws Cymru, mae gan CLlLC nifer o fesuryddion perfformiad sy'n cynnwys meysydd polisi allweddol. Mae Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus yn cynnwys set fechan o ddangosyddion sy'n "canolbwyntio ar y canlyniad". Maent yn adlewyrchu'r agweddau hynny ar waith awdurdodau lleol y mae awdurdodau'n cytuno yw'r pwysicaf o ran atebolrwydd i'r cyhoedd. Er enghraifft, ailgylchu, cyrhaeddiad addysgol, datblygu cynaliadwy, ac ati. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i hadrodd yn genedlaethol, ei gwirio, a'i chyhoeddi bob blwyddyn.

Yn ddiweddar, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig yn cadarnhau bod Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012 wedi'i ddirymu. O ganlyniad i hynny, 2015-16 oedd y flwyddyn olaf y casglodd Llywodraeth Cymru yr hen Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol. Er mwyn amharu cyn lleied â phosib' ar awdurdodau lleol – nifer o'r rheini wedi cynnwys y dangosyddion hyn yn eu cynlluniau gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol – mae pwyllgor cydlynu CLlLC wedi cytuno y dylem eu casglu ynghyd â MACau ar gyfer 2016-17.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'n perfformiad yn erbyn y mesuryddion cenedlaethol hyn.

7.1 Sut ydym yn cymharu â gweddill Cymru?



Mae dwy ran o dair o'n mesuryddion statudol yn gosod ein perfformiad yn chwarter uchaf neu yn chwarter canol perfformiad awdurdodau lleol Cymru. Rydym yn gweithio i wella ar y dangosyddion yn chwarter isaf perfformiad Cymru ac mae cynlluniau gweithredu ar waith.

7.2 A yw ein perfformiad yn gwella?



Mae'r siart gylch i'r chwith dangos i ba raddau y mae ein perfformiad o ran y mesuryddion hyn wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd 44% o'r mesuryddion yn dangos gwelliant, roedd 15% yn dangos dim newid mewn perfformiad ac roedd 41% yn dangos bod y perfformiad wedi gwaethygu. Eto, rydym yn gweithio i wella'r dangosyddion sydd wedi mynd ar i lawr.

7.3 A yw ein perfformiad yn gwella?



Mae'r siart fariau i'r chwith yn dangos fel y mae ein sefyllfa o gymharu â gweddill Cymru wedi newid dros amser. Mae nifer y dangosyddion yn y chwarter uchaf wedi parhau'r un fath am y tair blynedd ddiwethaf, ond mae'r nifer yn y chwarter isaf wedi cynyddu o chwe dangosydd i naw.

7.4 Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae'r tablau canlynol yn adrodd ar ffigwr perfformiad gwirioneddol y canlyniadau yn erbyn y targed ar gyfer y Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC). Cyflwynwyd adroddiad manwl i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ar 3 Gorffennaf 2017 ac mae i'w weld yma:
http://modgovcym.conwy.gov.uk/documents/g5539/Public%20reports%20pack%20Monday%2003-Jul-2017%2010.00%20Finance%20and%20Resources%20Overview%20and%20Scrutiny%20Committe.pdf?T=10

Lle na chyrhaeddwyd y targed, mae'r gwasanaeth wedi rhoi camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion hynny. Caiff y camau gweithredu hyn eu monitro'n rhan o'r Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth bob 6 mis i sicrhau ein bod yn rheoli'r perfformiad yn ystod y flwyddyn.

Esbonnir yr allwedd a ddefnyddir yn y golofn 'Dadansoddiad o berfformiad' isod:

O'i gymharu â'r targed a osodwyd:	
Cyflawnwyd y targed	
Oddi mewn i'r goddefiant er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r targed	
Heb gyflawni'r targed ac yn is na'r lefel sy'n cael ei goddef	
Ni osodwyd targed	

7.5 Mesuryddion Atebolrwydd Cyhoeddus

Cyf	Disgrifiad	Dadansoddiad o berfformiad	Targed 16/17	Canlyniad 2016/17	Safle drwy Gymru (o 22)	Cyfartaledd Cymru	Targed newydd ar gyfer 2017/18
EDU/002i	% yr holl ddisgyblion sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster allanol cydnabyddedig	Gwyrdd	0.30	0.17	15	0.07	0.30
EDU/002ii	% y ddisgyblion sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster allanol cydnabyddedig	Gwyrdd	10.00	0	1	0	10
EDU/003	% y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	Oren	88.00	86.79	20	88.87	88.9
EDU/006ii	% y disgyblion a aseswyd sy'n cael Asesiad Athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3	Oren	20.13	20.1	5	12.85	20.13
EDU/011	Sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion 15 oed	Coch	535	484	18	538.05	N/A
EDU/015a	% y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos, gan gynnwys eithriadau	Oren	90.00	83.72	12	84.46	90

Cyf	Disgrifiad	Dadansoddiad o berfformiad	Targed 16/17	Canlyniad 2016/17	Safle drwy Gymru (o 22)	Cyfartaledd Cymru	Targed newydd ar gyfer 2017/18
EDU/015b	% y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos, heb gynnwys eithriadau	Gwyrdd	100	100	1	100	100
EDU/017	% y disgyblion 15 oed a gafodd radd TGAU A*-C mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Coch	59.00	55.7	18	60.6	60
EDU/004	% y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	Oren	88.00	87.32	9	86.5	91.40
EDU/016a	% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	Gwyrdd	94.90	94.92	11	94.9	95
EDU/016b	% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	Gwyrdd	94.40	94.44	10	94.32	95
PSR/002	Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl	Oren	170.00	176.11	5	237.25	170
PSR/004	% yr anheddau sector preifat o fu'n wag am fwy na 6 mis sydd bellach yn cael eu defnyddio at ddibenion preswyl eto drwy weithredoedd uniongyrchol yr awdurdod lleol	Amh.	N/A	4.75	13	6.41	N/A
PLA/006(b)	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd	Gwyrdd	25.00	37.78	12	38.04	
CAM/037	% y newid yn sgôr gyfartalog Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos o fewn adeiladau'r awdurdod lleol sydd dros 1,000 metr sgwâr	Amh.	N/A	1.22	17	3.06	-1.00
WMT/004	% y gwastraff trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi	Gwyrdd	35.00	28.47	20	4.54	35.00
WMT/009	% y gwastraff trefol a gasglwyd i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu	Gwyrdd	62.00	62.58	17	64.89	65.00
STS/006	% yr achosion o dipio anghyfreithlon a riportiwyd a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith	Gwyrdd	95.00	98.22	6	96.85	95.00

Cyf	Disgrifiad	Dadansoddiad o berfformiad	Targed 16/17	Canlyniad 2016/17	Safle drwy Gymru (o 22)	Cyfartaledd Cymru	Targed newydd ar gyfer 2017/18
STS/005b	% y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glendid	Gwyrdd	95.00	98.95	4	95.96	95.00
THS/007	% yr oedolion 60 oed neu hŷn sydd â thocyn bws rhatach	Gwyrdd	84.00	84.34	13	85.53	Amh.
THS/012a	% y prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	Gwyrdd	4.00	3.08	9	3.35	4.00
THS/012b	% y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	Gwyrdd	9.50	4.26	13	4.19	9.50
THS/012c	% y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	Gwyrdd	17.0	15.67	19	8.78	17.00
PPN/009	% y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd	Amh.	N/A	95.39	9	95.04	N/A
CHR/002	Nifer y dyddiau gwaith/sifftiau fesul gweithiwr llawn amser cyfwerth a gollir oherwydd absenoldeb salwch	Oren	10.00	11.27	18	10.39	10.5
LCL/001(b)	Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth	Oren	4900	4770	12	4835	4775
LCS/002(b)	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth pan mae'r ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol	Oren	8500	8459	11	8374	8500

8 Cymerwch Ran

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i wella ein gwasanaethau ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwrando ar yr hyn sydd gennych chi, y gymuned, i'w ddweud. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw i'r Cyngor ei ystyried unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhowch wybod i ni.

Gallwch ymuno â Sgwrs y Sir i rannu eich safbwyntiau a'ch syniadau ynglŷn â'r Sir neu eich ardal leol.



www.conwy.gov.uk/sgwrsysir
www.conwy.gov.uk/countyconversation
www.facebook.com/sgwrsconwyconvo/
@sgwrsconwyconvo

Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

tgdc@conwy.gov.uk

01492 574000
Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu 18001 cyn y rhif y maent ei angen.

Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain a braille.
Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol

Rydym eisiau clywed barn Pobl Ifanc

Nid oedolion yn unig sy'n gallu dweud eu dweud. Ein pobl ifanc yw'r genhedlaeth nesaf ac rydym am glywed eich barn chi hefyd! Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch ddweud eich dweud yng Nghonwy. Mae pob un o'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghonwy'n rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud. Yn benodol, mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi o ran penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi. Nhw yw eich cynrychiolwyr, ac maent yn gweithio ar brosiectau ac yn gallu lleisio barn ar bethau sy'n gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc yng Nghonwy.

Os hoffech chi gymryd rhan:
https://www.facebook.com/CyngorIeuenctidConwyYouthCouncil

Caiff yr Adroddiad Blynyddol hwn, y Cynllun Corfforaethol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru oll eu cyhoeddi ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg.
www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol neu www.conwy.gov.uk/atebolrwydd.

Mae modd i chi hefyd weld yr Adroddiadau gan ddefnyddio un o'r cyfrifiaduron sydd at ddefnydd y cyhoedd, yn rhad ac am ddim, ym mhob Llyfrgell yn y Sir ac wrth y dderbynfa ym Modlondeb ac wrth y dderbynfa yn y Swyddfeydd Dinesig.

Gellir darparu copïau o'r Adroddiad Blynyddol mewn Braille neu mewn print bras, neu ar gryno ddisg clywedol. Ffoniwch 01492 574000 i drefnu i gael copi.

Er mwyn bod yn gynaliadwy a lleihau costau argraffu, mae nifer cyfyngedig o gopïau papur o'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn:

Holl Lyfrgelloedd y Cyngor	Swyddfeydd y Cyngor ym Modlondeb, Conwy
Llyfrgell Deithiol	Swyddfeydd y Cyngor ym Mochdre
Gwasanaeth i Bobl sy'n Gaeth i'w Tai	Swyddfeydd y Cyngor yng Nghoed Pella, Bae Colwyn (Agor yn 2018)

Gellir gwneud cais am gopi papur drwy ffonio 01492 574000.

9 Ymhle y gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich Cyngor?

- Ein gwefan www.conwy.gov.uk
- Gwefannau Cymdeithasol - Gallwch ein dilyn ar Twitter ac ar Facebook
- Cynllun Corfforaethol 2017 - 2022 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Adroddiadau Perfformiad chwe-misol www.conwy.gov.uk/cynlluncorfforaethol
- Mae Uned Ddata Llywodraeth Leol yn casglu, cyflwyno ac yn cymharu data'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer pob cyngor yng Nghymru. Mae adroddiad mesur perfformiad sy'n manylu ar y cynnydd a wnaed yng Nghonwy dros nifer o flynyddoedd i'w weld ar ein gwefan:

  www.lgdu-wales.gov.uk

  www.mylocalcouncil.info

  www.conwy.gov.uk/atebolrwydd

- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn arolygu perfformiad pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae adroddiadau archwilio cenedlaethol a rhai am gynghorau penodol i'w gweld ar: www.archwilio.cymru/cy
- Mae Estyn yn arolygu pob ysgol gynradd ac uwchradd a phob Awdurdod Addysg Lleol ledled Cymru. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: www.estyn.co.uk
- Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arolygu ansawdd sefydliadau gofal cymdeithasol ac ansawdd rhai darpariaethau blynyddoedd cynnar ar draws y Sir. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar: www.aggcc.org.uk